# PRIF GWNSTABL HEDDLU GOGLEDD CYMRU

# DATGANIAD O GYFRIFON
# 2016 – 2017

**Tabl o'r Cynnwys**


Adroddiad Naratif ........................................ 3

Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu ........................................ 11

Datganiad o'r Cyfrifoldebau dros y Datganiad o Gyfrifon ........................................ 27

Dadansoddiad Gwariant a Chyllid ........................................ 28

Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ........................................ 29

Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd ........................................ 30

Mantolen ........................................ 31

Datganiad Llif Arian ........................................ 32

Nodiadau i Ddatganiad o Gyfrifon y Prif Gwnstabl ........................................ 33

Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu ........................................ 50

Datganiad Llywodraethu 2016-2017 ........................................ 51

Adroddiad Archwilydd Cenedlaethol Cymru i Brif Gwnstabl Gogledd Cymru ........................................ 59

## Adroddiad Naratif

### Cyflwyniad


Mae'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2016-2017 yn rhoi darlun o sefyllfa ariannol y grŵp ar 31 Mawrth 2017 ynghyd â chrynodeb o'r incwm a'r gwariant yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2017. Mae diwedd 2016-17 yn nodi'r bedwaredd flwyddyn ers cyflwyniad Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr yn dilyn gweithrediad Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mewn egwyddor, mae'r Ddeddf wedi sefydlu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fel corfforaethau undyn, gyda'r ddau'n endidau cyfreithiol ar wahân sy'n gallu cyflogi staff, llunio cytundebau a chymryd rhan mewn achosion cyfreithiol. Cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw sicrhau bod yr heddlu yn effeithiol ac yn effeithlon a bydd yn comisiynu'r Prif Gwnstabl i wneud hyn. Mae'r Ddeddf hefyd wedi sefydlu Paneli'r Heddlu a Throsedd ar gyfer pob ardal blismona sydd yn gyfrifol am ddal y Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd.

Mae'n ofynnol i'r corfforaethau undyn baratoi eu Datganiad o Gyfrifon statudol endid sengl ar wahân, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol a'r Safonau Riportio Ariannol Rhyngwladol perthnasol. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynhyrchu set o Gyfrifon Grŵp.

### 1. Strwythur y Grŵp

Yn dilyn cyflwyniad Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei adnabod fel y sefydliad daliannol ac ystyrir y Prif Gwnstabl yn endid sydd yn eiddo'n llawn i'r sefydliad daliannol. Mae natur strwythur y grŵp wedi'i bennu mewn deddfwriaeth a chaiff cyfrifon y grŵp eu paratoi yn unol â'r arfer cyfrifyddu statudol.




### 2. Datganiad o Gyfrifon

Mae'r Ddeddf a dogfennau deddfwriaethol eraill yn nodi mai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddylai ddal cronfeydd wrth gefn y grŵp a chyfrif ar gyfer incwm a geir. Felly, ni fydd Cyfrifon y Prif Gwnstabl yn cynnwys Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn na Datganiad Llif Arian. Caiff y rhain eu cofnodi ar lefel Grŵp a chânt eu cynnwys o fewn Datganiad o Gyfrifon y Grŵp.

Mae'r cyfrifon grŵp yn cyflwyno darlun manwl o faterion ariannol y Prif Gwnstabl ac yn cynnwys:-

- Datganiad Grŵp o Bolisïau Cyfrifyddu (Tudalen 11).
  Mae'r datganiad hwn yn cefnogi'r cyfrifon ac yn rhoi manylion am yr egwyddorion, y rheolau a'r arferion penodol y bydd y Grŵp yn eu defnyddio wrth baratoi a chyflwyno'r datganiadau ariannol.

- Datganiad o'r Cyfrifoldebau (Tudalen 27).

Mae'n pennu cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon ac yn cadarnhau bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.

- Dadansoddiad o Wariant a Chyllid (Tudalen 28).
  Mae'n dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, praesept treth cyngor ac ardrethi busnes) gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau. Mae incwm a gwariant a gyfrifir amdano dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno'n fwy manwl yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

- Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr (Tudalen 29).
  Mae'r datganiad hwn yn dangos costau cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn codi trethiant er mwyn talu am wariant yn unol â gofynion statudol ac yn defnyddio'r incwm hwn i ddarparu cyllid o fewn y grŵp i'r Prif Gwnstabl. Gall y costau a ariennir gan drethiant fod yn wahanol i'r costau cyfrifyddu. Mae'r sefyllfa trethiant i'w weld yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn ogystal â'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd.

- Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd (Tudalen 30).
  Mae'n crynhoi'r symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan y Prif Gwnstabl wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy (y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant) a chronfeydd annefnyddadwy eraill (cyfrifyddu technegol yn bennaf).

- Mantolen (Tudalen 31).
  Mae'n dangos gwerth asedau ac ymrwymiadau a gydnabyddir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (asedau llai dyledion) yn cyd-fynd â balansau'r cronfeydd sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Dim ond cronfeydd annefnyddadwy sydd gan y Prif Gwnstabl h.y. na ellir eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau.

- Datganiad Llif Arian (Tudalen 32).
  Mae'r datganiad yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn.

- Nodiadau ar yr Cyfrifon (Tudalennau 33 i 48).
  Dyma'r holl nodiadau esboniadol sy'n berthnasol i'r datganiadau.

- Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu (Tudalen 49).
  Manylion y trafodion incwm a gwariant sy'n gysylltiedig ag incwm a gwariant Pensiwn yr Heddlu.

## 3. Yr Hinsawdd Economaidd a Chyllideb Refeniw 2016-2017

Roedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyllideb refeniw net o £141.067 miliwn ar gyfer 2016-17. Cafodd y gyllideb hon ei gosod yn ffurfiol yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throsedd ar 25 Ionawr 2016 ac roedd yn cynnwys cynnydd cyffredinol o 2.47% yn y praesept. Fodd bynnag, oherwydd y gostyngiad o 0.60% yn yr arian a gafwyd gan y Llywodraeth roedd hyn gyfystyr â gostyngiad cyffredinol o 0.89% yn y gyllideb refeniw sylfaenol.

Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am gynnal heddwch y Frenhines a gorfodi'r gyfraith. Mae hefyd yn gyfrifol am gyfarwyddyd a rheolaeth swyddogion a staff yr heddlu ac mae'n atebol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon ac am reoli adnoddau. Yn ystod 2016-2017 dirprwyodd y

Comisiynydd Heddlu a Throsedd y gyllideb wariant i'r Prif Gwnstabl. Gwariwyd cyfanswm gros o £157.751 miliwn ar y gwasanaeth plismona yn 2016-2017.

Gosodir ein blaenoriaethau plismona ar gyfer 2016-2017 ar ôl ystyried materion cenedlaethol a lleol ac maent yn rhoi sylw i'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt er mwyn darparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2016-2017 yw:

- lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar ein cymunedau
- diogelu pobl a lleihau niwed
- darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n rhoi hyder i'n cymunedau
- hybu gweithlu trefnus, medrus a arweinir yn dda.

Mae ein gwerthoedd yn greiddiol i'r blaenoriaethau hyn ac maent yn disgrifio sut y byddwn yn cynnal ein busnes. Golyga hynny weithio fel un tîm yn gwneud y pethau iawn ac yn cynorthwyo ein cymunedau. Bydd yr uchod i gyd yn cyfrannu tuag at weledigaeth hollgynhwysfawr Heddlu Gogledd Cymru, sef gwneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel.

Mae'r deuddeng mis diwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i'r gwasanaeth. Gwelwyd cynnydd o 5.7% ym mhob trosedd yn erbyn cefndir o dargedau sicrhau arbedion ariannol heriol a chynnydd yn y galwadau ar y gwasanaeth. Cafwyd bygythiadau a heriau newydd gan gynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddau seiber, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern yn ogystal â chynnydd ym mygythiad terfysgaeth. I'n cynorthwyo i daclo'r bygythiadau hyn, rydym wedi sefydlu timau plismona arbenigol i ganolbwyntio ar y meysydd hyn ac er mwyn arddangos ein hymrwymiad i daclo'r troseddau hyn yn ogystal â buddsoddi mewn adnoddau i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Fel rhan o'n hagwedd gyffredinol tuag at werth am arian, mae Uned Ymateb Rheoledig wedi cael ei roi mewn lle i reoli galw'n effeithiol a darparu arbedion effeithlonrwydd yn y defnydd a wneir o'n hadnoddau. Mae canlyniadau cynnar wedi dangos cynnydd mewn amlygrwydd a gwell gwasanaeth i'r rhai sy'n dioddef trosedd.

Mae perfformiad dros y deuddeng mis diwethaf wedi gweld:

- Cynnydd o 5.1% mewn byrgleriaethau o anheddau a lleihad o 10.7% mewn byrgleriaethau heb fod o annedd
- Gostyngiad o 14.4% mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd
- Cynnydd o 3.7% mewn dwyn o siopau
- Cynnydd o 4.4% mewn achosion eraill o ddwyn ac mae lleihad o 6.6% mewn achosion o ladrata
- Gostyngiad o 8.2% mewn difrod troseddol a chynnau tân yn orfodol
- Cynnydd o 9.2% mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae heriau eraill yn bodoli o hyd gan y gwelwyd cynnydd o 6.5% mewn troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwr ac mae troseddau treisgar gydag anaf wedi cynyddu 24.1% a throseddau treisgar heb anaf wedi cynyddu 14.5% dros y flwyddyn. Gwelwyd gostyngiad o ran bodlonrwydd a hyder y cyhoedd. Er mai bychan iawn yw'r newid mewn rhai achosion, e.e. rhwyddineb cysylltu, mae'r profiad cyffredinol wedi lleihau o 84% i 81.1%. Byddwn yn parhau i ymdrechu i ddarparu gwasanaethau ardderchog sy'n bodloni disgwyliadau'r cyhoedd a byddwn yn gweithio i adeiladu ar ein lefelau boddhad fel bod gan y cyhoedd fwy o hyder yn y sefydliad ac yn gallu teimlo'n fwy diogel yn yr ardaloedd lle maent yn byw.

Mae heriau sylweddol i ddod gyda lleihad pellach o £4.9 miliwn yn ddisgwyliedig o ran cyllid gan y llywodraeth rhwng 2017-2020. Mae hyn yn dilyn y gostyngiadau a welwyd ers 2010-2011 hyd yn hyn sydd wedi arwain at ostyngiad o gyfanswm o £26.9 miliwn o gyllideb heddlu Gogledd Cymru. Mewn ymateb i'r heriau parhaus, sefydlwyd Bwrdd Cynllunio Strategol i weithredu a goruchwylio'r cynlluniau a'r newidiadau angenrheidiol i gyflawni'r lleihad gan sicrhau ein bod yn lleihau'r effaith ar ein gwasanaethau a'n hadnoddau rheng flaen. Mae trigolion Gogledd Cymru wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'n gyfiawn felly ein bod yn parhau i ymdrechu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon.

Gweler y perfformiad yn ôl y gyllideb isod ar lefel grŵp gan fod hynny'n adlewyrchu sut y cafodd ei fonitro a'i riportio trwy gydol 2016-2017. Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol o fewn y cyfrifon hyn yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu mewn lle ar gyfer y Prif Gwnstabl.

Y sefyllfa diwedd blwyddyn gyffredinol oedd cyfraniad net o £1.246 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn; mae hynny'n cynnwys y cyfraniad o £2.755 miliwn a gynlluniwyd o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn a glustnodwyd. Ymysg y prif feysydd a gyfrannodd at y sefyllfa ariannol derfynol roedd cyflogau swyddogion a staff yr heddlu a arweiniodd at leihad yn niferoedd staff a chynnydd yn nifer y swyddi gwag. Roedd gwariant o fewn pensiynau a nwyddau a gwasanaethau megis TG, gwariant ar gymorth cydfuddiannol a phrynu offer yn uwch na'r disgwyl; fodd bynnag gwnaed iawn am y rhain mewn nifer o feysydd eraill sydd wedi cyfrannu tuag at y tanwariant cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys lleihad yn y ddarpariaeth yswiriant gan gynnwys tynnu'r swm a ddarparwyd ar gyfer achosion A19 o ganlyniad i fethiant yr apêl. Yn ogystal, cafwyd tanwariant o ran costau rhedeg cerbydau yn unol â'r lleihad mewn prisiau tanwydd a welwyd gan yr Heddlu a'r lleihad yn ein gwariant ar ynni. Cafwyd hefyd gynnydd mewn incwm yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i ddarpariaeth cymorth cydfuddiannol, gwerthiannau cerbydau ychwanegol a chynnydd mewn incwm cydweithredol o ganlyniad i gynllun peilot y Gynghrair Cŵn gyda Heddlu Swydd Gaer.

Gweler sefyllfa diwedd y flwyddyn yn y tabl isod:

| GWIR FALANS 2015-2016 £m | GWARIANT REFENIW | CYLLIDEB 2016-2017 £m | GWIR FALANS 2016-2017 £m | AMRYWIANT £m |
|---|---|---|---|---|
| 118.832 | COSTAU GWEITHWYR | 119.617 | 118.198 | -1.419 |
| 3.645 | PENSIYNAU'R HEDDLU | 3.102 | 3.451 | 0.349 |
| 7.725 | COSTAU ADEILADAU | 8.011 | 7.833 | -0.178 |
| 4.597 | COSTAU CLUDIANT | 3.578 | 2.968 | -0.610 |
| 21.980 | NWYDDAU A GWASANAETHAU | 22.051 | 22.626 | 0.575 |
| 1.702 | CYLLID CYFALAF | 2.423 | 5.297 | 2.874 |
| 1.151 | CRONFA DIOGELWCH CYMUNEDOL | 1.166 | 1.093 | -0.073 |
| 2.116 | PARTNERIAETHAU | 2.208 | 2.131 | -0.077 |
| -21.179 | INCWM | -20.787 | -21.284 | -0.497 |
| **140.569** | **GWARIANT GWEITHREDU*** | **141.369** | **142.313** | **0.944** |
| -0.733 | TROSGLWYDDIADAU I/O'R CRONFEYDD WRTH GEFN | -0.302 | -1.246 | -0.944 |
| **139.836** | **GWARIANT NET** | **141.067** | **141.067** | **0** |
| | **ARIANNWYD GAN:** | | | |
| 40.825 | GRANT YR HEDDLU | 40.592 | 40.592 | 0 |
| 15.064 | TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL | 10.989 | 10.989 | 0 |
| 6.244 | GRANT CYNNAL REFENIW | 10.589 | 10.589 | 0 |
| 11.029 | GRANT LLAWR | 10.575 | 10.575 | 0 |
| 66.674 | TRETH CYNGOR | 68.322 | 68.322 | 0 |
| **139.836** | **CYFANSWM** | **141.067** | **141.067** | **0** |

*gan gynnwys taliadau llog o £1.214 miliwn 2016-2017 (£1.282 2015-2016)

Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd sy'n gyfrifol am y cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau ac mae'r wybodaeth amdanynt wedi'i chynnwys yn y datganiad o gyfrifon grŵp. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys manylion cronfeydd a darpariaethau'r grŵp ar gyfer 2016-2017.

**Cronfeydd Defnyddiadwy**

Mae'r Cronfeydd Defnyddiadwy ar gael ar gyfer gwariant yn y dyfodol.

| BALANS A CHRONFEYDD WRTH GEFN | BALANS AGORIADOL 01/04/2016 £m | SYMUDIAD £m | BALANS TERFYNOL 31/03/2017 £m |
|---|---|---|---|
| Y GRONFA WRTH GEFN CYFFREDINOL | 4.189 | 1.000 | 5.189 |
| | | | |
| CRONFEYDD A GLUSTNODWYD: | | | |
| CRONFA SWYDDOGION AR BRAWF | 3.974 | -3.974 | 0 |
| CRONFA BENSIWN SALWCH | 0.415 | 0.500 | 0.915 |
| MENTER CYLLID PREIFAT (PFI) | 3.692 | 0.295 | 3.987 |
| CRONFA DIGWYDDIADAU SYLWEDDOL | 2.235 | 0.200 | 2.435 |
| CRONFA YSWIRIANT | 1.173 | 0 | 1.173 |
| CRONFA GYFALAF | 14.845 | -2.755 | 12.090 |
| DIOGELU A CHYNNAL A CHADW'R YSTÂD | 1.938 | -0.279 | 1.659 |
| CRONFA RHEOLI NEWID WRTH GEFN | 2.027 | 3.894 | 5.921 |
| CRONFA BALANS PARTNERIAETHAU | 0.587 | -0.088 | 0.499 |
| CRONFA DIOGELWCH CYMUNEDOL Y COMISIYNYDD | 0.280 | -0.004 | 0.276 |
| CRONFA SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD | 0.258 | 0 | 0.258 |
| CRONFA GYFREITHIOL (SCHTh) | 0.076 | -0.035 | 0.041 |
| CYLLIDEBAU PARTNERIAETH (SCHTh) | 0.002 | 0 | 0.002 |
| CRONFA DERBYNIADAU CYFALAF | 3.495 | 0.168 | 3.663 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD DEFNYDDIADWY** | **39.186** | **-1.078** | **38.108** |

**Darpariaethau**

| DARPARIAETHAU | BALANS AGORIADOL £m | SYMUDIAD £m | BALANS TERFYNOL £m |
|---|---|---|---|
| CRONFA YSWIRIANT | 2.200 | -1.103 | 1.097 |

**2016-2017**

Roedd blwyddyn ariannol 2016-17 yn gyfnod o dwf parhaus er gwaethaf rhagolygon economaidd yn cael eu hisraddio gyda thwf GDP o 2% yn gyffredinol, er i hynny leihau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau i Wasanaeth yr Heddlu o ganlyniad i lefel y toriadau a bennwyd yn yr adolygiad cynhwysfawr ynghyd ag ansicrwydd parhaus ynglŷn â chyllid y llywodraeth o ganlyniad i'r adolygiad o'r fformwla ariannu. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i weithredu'r strategaeth gyllidebol a sefydlwyd er mwyn darparu'r arbedion angenrheidiol yn ystod y cyfnod ac fel rhan o hyn fe adnabuwyd a gwnaethpwyd arbedion gwerth £2.838 miliwn dros gyfnod 2016-2017. Fel rhan o'r strategaeth fe ystyrir bod lefel y cronfeydd a'r darpariaethau sydd gan yr Heddlu ar hyn o bryd yn ddarbodus a bod y gronfa gyffredinol o £5.2 miliwn ar 3.7% o'r gwariant refeniw net ar gyfer y flwyddyn, sydd o fewn y targed o 3% i 5% fel y'i diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Mae gan y Prif Gwnstabl ymrwymiad hirdymor ar y Fantolen sy'n deillio o driniaeth Buddiannau ôl Gyflogi IAS 19. Mae hyn yn ymwneud â Chynlluniau Pensiwn Swyddogion Heddlu a Chynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol staff yr heddlu ac yn swm o -£1.682 biliwn ar gyfer 2016-2017. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 14 yn y cyfrifon.

## 4. Gwariant Cyfalaf

Dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 trosglwyddwyd holl asedau'r Awdurdodau Heddlu i'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd. Mae Cyfrifon y Prif Gwnstabl yn cynnwys tâl a glustnodwyd ar gyfer defnyddio'r asedau sydd ar gael iddo. Yn 2016-2017 roedd hyn yn £4.244 miliwn (2014-2015 £6.060).

Gosodwyd y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2016-2017 ym mis Chwefror 2016 a chafodd llithriadau o raglen 2015-2016 eu dwyn ymlaen i raglen 2016-2017. Cyfanswm diwygiedig yr amcangyfrifon gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn oedd £11.499 miliwn a'r gwir wariant ar gyfer y flwyddyn oedd £8.181 miliwn gan arwain at wariant o £3.318 miliwn yn cael ei drosglwyddo i 2017-2018. Roedd y mwyafrif o ganlyniad i amseriad talu am ddau brosiect ystadau sylweddol yn Wrecsam a Llandudno ar ddiwedd y flwyddyn. Ni fydd yr oediad yn effeithio ar gynnydd na darpariaeth y cynlluniau sy'n parhau i gael eu cynllunio i'w cwblhau ar amser. Yn 2016-2017 cynhaliwyd sawl ymarfer ail leoli ac adfer ar draws y portffolio asedau.

Mae'r trafodion a'r gwariant cyfalaf, sy'n cynnwys amodau gwrthwneud statudol, i'w gweld yn y Datganiad o Gyfrifon Grŵp.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi prif wariant cyfalaf a nawdd ar gyfer 2016-2017:-

| GWARIANT CYFALAF | CYLLIDEB 2016-2017 £m | GWIR FALANS 2016-2017 £m | AMRYWIANT + (-) £m |
|---|---|---|---|
| Gwaith ar Adeiladau/Yr Ystâd | 6.458 | 3.268 | -3.190 |
| Offer | 0.394 | 0.285 | -0.109 |
| Cerbydau | 1.445 | 1.416 | -0.029 |
| TG a Chyfathrebu | 3.202 | 3.212 | 0.010 |
| **GWARIANT NET** | **11.499** | **8.181** | **-3.318** |
| **ARIANNWYD GAN:** | | | |
| Grantiau Cyfalaf y Swyddfa Gartref | 0.541 | 1.123 | 0.582 |
| Cyfraniad Refeniw/Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn | 2.012 | 1.975 | -0.037 |
| Cyfalaf wrth Gefn | 6.557 | 2.755 | -3.802 |
| Benthyciadau eisoes wedi'u hariannu mewn refeniw | 2.389 | 2.328 | -0.061 |
| **CYFANSWM CYLLID CYFALAF** | **11.499** | **8.181** | **-3.318** |

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Menter Cyllid Preifat ar gyfer ei bencadlys Rhanbarthol yn Llanelwy. Mae'r arian ar gyfer y cynllun hwn yn parhau i gael ei dalu o gymeradwyaethau credyd, y gyllideb refeniw a chronfa a glustnodwyd. Ceir manylion am y cynllun a'r ymrwymiad yn y datganiad o gyfrifon grŵp.

**Balans a Chronfeydd wrth Gefn:**

Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o'r balansau cyfalaf a'r cronfeydd sy'n cael eu dal gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:-

| BALANS A CHRONFEYDD WRTH GEFN | BALANS AGORIADOL 01/04/2016 £m | SYMUDIAD £m | BALANS TERFYNOL 31/03/2017 £m |
|---|---|---|---|
| **CRONFEYDD CYFALAF DEFNYDDIADWY** | | | |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | 3.495 | 0.168 | 3.663 |
| **CRONFEYDD CYFALAF ANNEFNYDDADWY** | | | |
| Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol | 0.117 | -0.071 | 0.046 |
| Cronfa Ailbrisio | 21.089 | -0.078 | 21.011 |
| Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 14.671 | 3.382 | 18.053 |

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn adolygu prisiadau asedau 17 eiddo o fewn y portffolio.

**Benthyca:**

Nid oedd rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd godi unrhyw fenthyciadau newydd i ariannu gwariant cyfalaf a defnyddiodd gronfeydd mewnol i reoli ei lif arian. Parhaodd cyfartaledd y llog a delir ar y benthyciadau i fod yn 3.01% yn 2016-2017. Cyfanswm y benthyciadau a oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1.933 miliwn.

**5. Polisïau Cyfrifyddu**

Gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu pan fo'n ofynnol oherwydd arferion cyfrifyddu priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effaith trafodion, digwyddiadau neu amodau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod.

Mae Datganiad Cyfrifon 2016-2017 yn adlewyrchu newidiadau a gyflwynwyd er mwyn cydymffurfio â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a Chod Ymddygiad CIPFA. Mae'r cyfrifon bellach yn cael eu cyflwyno mewn fformat sy'n darparu cyswllt rhwng yr adrodd rheolaeth a'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Mae'r newid hwn mewn polisi cyfrifyddu wedi gofyn am ail-ddatganiad ôl-weithredol llawn o'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr a chyflwyno Dadansoddiad Gwariant a Chyllid. Ni chafodd y newid hwn unrhyw effaith ar y fantolen.

**6. Cydweithio â Chyrff Eraill**

Yn 2013 trosglwyddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yr hofrennydd i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS). Mae hwn yn gontract cenedlaethol gorfodol ar gyfer darparu Gwasanaeth Awyr yr Heddlu ar draws y DU yn ei gyfanrwydd.

Fe anogir Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i edrych ar feysydd ble gallant gydweithio i ddarparu gwasanaethau, naill ai gyda heddluoedd eraill neu ar lefel leol gyda chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithio'n agos gyda Heddluoedd eraill a Rhanbarth y Gogledd Orllewin i edrych ar feysydd i gydweithio, ceir manylion trefniadau presennol yn Nodyn 21. Ar lefel leol, mae Adran Gyfleusterau'r Heddlu yn rheoli ystâd y

Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y cyd ac mae'n edrych ar gyfleoedd pellach i gydweithio. Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd yn gweithredu ystafell reoli ar y cyd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Llanelwy.

Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i weithio gyda Heddlu Swydd Gaer ar y Gynghrair Plismona Arfog er mwyn gwella perfformiad gweithredol ac ar yr un pryd i barhau i ddarparu'r gwelliannau a'r arbedion angenrheidiol er mwyn gallu diwallu gostyngiadau'r Llywodraeth yn y gwasanaeth. Yn 2016-2017 dechreuodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl gynllun peilot cydweithredol pellach gydag adran Gŵn ar y cyd gyda Heddlu Swydd Gaer a sefydlwyd i gynyddu gallu deddfwriaethol a darparu arbedion effeithlonrwydd gan wasanaeth cyson.

## 7. Edrych i’r Dyfodol

Yn dilyn canlyniadau diweddar yr etholiad cyffredinol, disgwylir y bydd mesurau cyni cyllidol y llywodraeth yn parhau dros y cyfnod seneddol presennol. Mae ansicrwydd ynghylch lefel ac effeithiau posibl y gostyngiadau mewn nawdd ar gyfer Gwasanaeth yr Heddlu yn y dyfodol yn golygu bod rhaid parhau i sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu hadolygu a’u trawsnewid. Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu'r gofynion ariannol yn ystod y cyfnod 2017-2022. Mae’n cysylltu’r cynllun plismona a’r blaenoriaethau gyda’r strategaeth ariannol a gellir dod o hyd iddo ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd: http://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Information/Publication-Scheme/What-we-spend/Budget/Medium-Term-Financial-Plan-2017-18-to-2021-22-Final.pdf. Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaeth heddlu yng Ngogledd Cymru yn addas i’r pwrpas ac yn rhoi gwerth am arian i drigolion Gogledd Cymru. Rhan hollbwysig o hyn yw’r angen am gronfeydd wrth gefn digonol i wynebu’r heriau sydd i ddod ac, yn y pen draw, i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen.

Cafodd cyllideb 2017-2018 ei gosod gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chafodd ei chymeradwyo gan Banel yr Heddlu a Throsedd ym mis Ionawr 2017 ar £143.217 miliwn. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 3.79% yn Nhreth y Cyngor a chynnydd cyffredinol net o 1.52% o’i gymharu â chyllideb 2016-2017 o £141.067 miliwn. Mae arbedion gwerth £2.7 miliwn wedi’u hadnabod i’w gwireddu yn 2017-2018.

Bydd canlyniadau refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn 2016 lle dewisodd y DU i adael yr UE yn cael effaith wleidyddol ar yr holl wlad. Cafodd Erthygl 50 ei sbarduno ar 29 Mawrth 2017 gan farcio man cychwyn dwy flynedd o drafodaethau i sicrhau cytundeb ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd felly, mae'r effaith posibl y bydd hyn yn ei gael ar wasanaeth yr heddlu yn ansicr.

## 8. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod riportio.

Pan gafodd y Datganiad o Gyfrifon ei gyflwyno i’r Prif Gwnstabl ar 20 Medi 2017, roedd yr holl ddigwyddiadau addasu neu beidio addasu materol yr oedd angen eu cynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon wedi’u cynnwys yn Nodyn 9 i’r cyfrifon.

## Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

### 1. Cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon Grŵp yn cynnwys crynodeb o drafodion y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2017. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd baratoi Datganiad o Gyfrifon yn flynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, ac mae'r Rheoliadau yn nodi bod rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn bennaf yn cynnwys Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-2017 gyda chefnogaeth y Safonau Riportio Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a'r arweiniad statudol a gyflwynwyd dan adran 12 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r cod yn nodi'r egwyddorion a'r arferion cyfrifyddu angenrheidiol i baratoi Datganiad o Gyfrifon Grŵp sy'n cyflwyno darlun 'gwir a theg' o'r sefyllfa ariannol, perfformiad ariannol a llif arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, gan gynnwys datganiadau ariannol grŵp.

Y confensiwn cyfrifo a fabwysiadwyd yw cost hanesyddol, wedi'i addasu drwy ailbrisio rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

### 2. Croniadau o Incwm a Gwariant

Mae'r gweithgareddau yn cael eu cyfrifo yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid dim ond pan fydd taliadau ariannol yn cael eu gwneud a'u derbyn. Yn benodol:

- Bydd y refeniw a geir o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a'r manteision cysylltiedig i'r prynwr, ac mae'n debygol y bydd y buddion economaidd neu botensial y gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn trosglwyddo i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

- Bydd y refeniw a geir o ddarparu gwasanaethau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei adnabod pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gallu mesur yn ddibynadwy ganran cwblhau'r trafodyn ac mae'n debygol y bydd y buddion economaidd neu botensial y gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn trosglwyddo i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

- Bydd nwyddau'n cael eu cofrestru fel gwariant pan fyddant yn cael eu defnyddio. Pan fydd bwlch rhwng dyddiad derbyn a dyddiad defnyddio'r nwyddau, byddant yn cael eu trin fel stoc ar y Fantolen.

- Bydd treuliau sy'n berthnasol i wasanaethau a roddwyd (yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y gweithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan brosesir y taliad.

- Bydd y llog a geir ar fuddsoddiadau ac a delir ar fenthyciadau yn cael eu cyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail y raddfa llog sy'n berthnasol i'r offeryn ariannol hwnnw yn hytrach na'r llif arian sydd wedi'i benodi neu bennu gan y contract.

- Pan fydd y refeniw a'r gwariant wedi cael ei adnabod ond nad yw'r arian wedi cael ei dderbyn na'i dalu, bydd y ddyled neu'r credyd am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen. Os na fydd dyled, bydd balans y dyledion yn lleihau a thâl yn cael ei godi ar y cyfrif refeniw am yr incwm na fyddai o bosibl yn cael ei gasglu.

### 3. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Mae arian mewn llaw ac adnau gyda sefydliadau ariannol sy'n daladwy heb gosb wrth roi rhybudd o ddim mwy na 24 awr yn cael ei ystyried yn arian parod. Mae cywerthoedd arian yn fuddsoddiadau all aeddfedu'n syth ar

ddyddiad y caffaeliad ac sydd yn gallu cael eu trosi yn hawdd i symiau penodol o arian gyda risg bychan o newid yn eu gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, mae arian parod a chywerthoedd arian parod yn cael eu dangos fel net o'r gorddrafft banc sy'n daladwy ar ofyn ac maent yn ffurfio rhan annatod o reolaeth arian y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

4. **Eitemau Eithriadol**

Pan fydd eitemau o incwm a gwariant yn faterol berthnasol, bydd eu natur a'u swm yn cael eu datgelu ar wahân, naill ai yn amlwg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn ddibynnol ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i'r ddealltwriaeth o berfformiad ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

5. **Addasiadau i Gyfnodau Blaenorol, Newidiadau yn y Polisïau Cyfrifyddu, Amcangyfrifon a Gwallau**

Mae addasiadau i gyfnodau blaenorol yn gallu digwydd oherwydd newidiadau yn y polisïau cyfrifyddu neu wrth gywiro gwallau sy'n faterol berthnasol. Mae newidiadau yn yr amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cyfrifo wrth fynd ymlaen h.y. yn y flwyddyn bresennol ac yn y blynyddoedd dilynol sy'n cael eu heffeithio gan y newid ac nid ydynt yn arwain at addasiad yn y cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fydd yr arferion cyfrifyddu perthnasol yn datgan bod rhaid newid y polisïau cyfrifyddu y byddant yn cael eu diweddaru neu pan fyddai eu newid yn rhoi gwybodaeth sy'n fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith y trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau sefyllfa ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu ei berfformiad ariannol. Pan fydd newid yn cael ei wneud, bydd yn cael ei ôl weithredu (oni bai y nodir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a'r symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi wedi'i weithredu fel hyn erioed.

Bydd camgymeriadau materol a ddeuir ar eu traws yn ffigyrau unrhyw gyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy newid y balansau agoriadol a'r symiau cymharol yn y cyfnod blaenorol hwnnw.

6. **Taliadau Refeniw ar Gyfer Asedau Anghyfredol**

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn codi tâl ar wahân am ddibrisio, ailbrisio a lleihau neu amorteiddio gwasanaethau, gwasanaethau cefnogi neu gyfrifon masnachu.

Nid oes rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd godi treth y cyngor i ariannu colledion dibrisio, ailbrisio, lleihau neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol o'r gyllideb refeniw tuag at leihau ei ofyniad benthyca cyffredinol sydd gyfwerth â'r swm gochelgar a gyfrifir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn unol â'r cyfarwyddyd statudol.

Mae dibrisiadau, ailbrisiadau a cholledion lleihau ac amorteiddio yn cael eu disodli gan y cyfraniad ym malans y Gronfa Gyffredinol (Darpariaeth Isafswm Refeniw), a thrwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd er mwyn gwneud yn iawn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

7. **Buddion y Gweithwyr**

**Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth**

Buddion tymor byr y gweithwyr yw'r rhai hynny sydd i'w talu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel cyflogau, gwyliau ac absenoldeb salwch sy'n cael eu talu, bonwsau a buddion eraill heb fod yn ariannol (e.e. ceir) ar gyfer gweithwyr presennol ac maent yn cael eu cyfrif fel cost am wasanaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn ei roi i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwneir croniad am gost

gwyliau sy’n deillio o’r hawl am wyliau neu amser i ffwrdd yn lle sydd wedi ei gaffael gan y gweithiwr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn a gall y gweithiwr ei gario i’r flwyddyn ariannol nesaf. Mae’r croniad ar y raddfa gyflog sy’n berthnasol i’r flwyddyn ariannol nesaf, gan ei fod yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn cymryd y budd. Bydd y croniad yn cael ei godi yn erbyn y Gweddill neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth o Wasanaethau, ond wedyn bydd yn cael ei wrthdroi trwy’r Datganiad o’r Symudiadau yn y Cronfeydd fel bod buddion gwyliau yn cael eu talu allan o’r cyfrif refeniw yn y flwyddyn ariannol pan fydd y gweithiwr yn cymryd y gwyliau.

**Buddion Terfynu**

Arian sy’n daladwy yn dilyn penderfyniad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i derfynu cyflogaeth gweithiwr cyn ei ddyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad gweithiwr i dderbyn diswyddiad gwirfoddol yw buddion terfynu. Gwneir ceisiadau ar sail croniad yn y llinell Costau heb Gael eu Dosbarthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr pan na all y Comisiynydd Heddlu a Throsedd dynnu’r cynnig o’r buddion hynny yn ôl neu pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod costau ar gyfer ailstrwythuro.

Pan fydd y buddion terfynu yn cynnwys gwelliant yn y pensiynau, mae’n rhaid, yn unol â’r darpariaethau statudol, symud y swm sy’n daladwy gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i’r gronfa bensiwn neu’r pensiynwr yn y flwyddyn o’r Gronfa Gyffredinol, yn hytrach na’r swm sy’n cael ei gyfrifo yn unol â’r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o’r Symudiadau yn y Cronfeydd, rhaid neilltuo arian i mewn ac allan o’r Gronfa Bensiwn er mwyn tynnu allan y debydau a’r credydau tybiannol ar gyfer y buddion terfynu pensiwn sydd wedi eu gwella, a’u cyfnewid gyda debydau am yr arian sydd wedi ei dalu i’r gronfa bensiwn a’r pensiynwyr ac unrhyw symiau sy’n ddyledus ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

**Buddion Ôl-Gyflogaeth**

Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am ddau gynllun pensiwn. Mae’r ddau gynllun yn rhoi buddion diffiniedig sy’n gysylltiedig â chyflog a gwasanaethau i’r aelodau gwahanol.

*Swyddogion yr Heddlu -*

Hyd at 2005-2006 roedd cost cynllun pensiwn swyddogion heddlu, a oedd yn gynllun buddion diffiniedig, heb ei ariannu, yn cael ei dalu o Gyfrif Incwm a Gwariant Awdurdod yr Heddlu. Bu newid yn y modd y cyfrifir pensiynau swyddogion heddlu yn 2006-2007. Sefydlwyd cronfa ganolog gan y Swyddfa Gartref i dalu pensiynau a thaliadau cymudo. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn talu canran o gyflogau’r swyddogion i mewn i’r gronfa hon. Mae talu pensiynau anaf yn parhau i fod yn gyfrifoldeb ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac maent yn cael eu talu allan o Gyfrif Incwm a Gwariant y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

*Staff yr Heddlu (gan gynnwys staff sy’n gweithio yn Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd) -*

Mae gan y gweithwyr hyn hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy’n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd. Cynhaliwyd yr asesiad actwari teirblynyddol yn 2016 ac roedd yn nodi bod angen gosod cyfraniad y cyflogwr ar leiafswm o 16.3% y flwyddyn ynghyd â lwmp swm o £0.8m i fodloni ymrwymiadau'r gronfa. Cynhelir yr asesiad teirblynyddol nesaf yn 2019.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrifo fel cynllun buddion diffiniedig:

- mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sy’n gyfrifoldeb i’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwarïaid gan ddefnyddio’r dull rhagamcanu unedau, h.y. asesiad o’r taliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol ar fuddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant staff a rhagamcanion ynghylch enillion tybiedig y gweithwyr presennol.

- mae'r ymrwymiadau'n cael eu disgowntio i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.9% yn seiliedig ar gyfradd adennill fynegol ar fondiau'r Llywodraeth wedi eu haddasu ar gyfer elw ychwanegol o fondiau corfforaethol o ansawdd uchel (iBoxx Sterling Corporates AA).

- mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sy'n gyfrifoldeb i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu cynnwys ar y Fantolen ar eu gwerth teg:
  Gwarantau a ddyfynnwyd ar eu pris cynnig cyfredol
  Gwarantau na chafwyd eu dyfynnu ar amcangyfrif proffesiynol
  Gwarantau unedol ar eu pris cynnig cyfredol
  Eiddo ar werth y farchnad

- mae'r newid yn yr ymrwymiad pensiwn net yn cael ei ddadansoddi i mewn i'r elfennau canlynol:

  Cost am wasanaeth sy'n cynnwys:

  (i) Cost Gyfredol y Gwasanaeth - cynnydd yn yr ymrwymiadau oherwydd y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd y flwyddyn hon wedi ei ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

  (ii) Cost Flaenorol y Gwasanaeth - cynnydd yn yr ymrwymiadau oherwydd newid neu gwtogiad i'r cynllun sy'n cael effaith ar y blynyddoedd o wasanaeth a sicrhawyd yn y blynyddoedd cynt ac sy'n cael eu debydu yn erbyn y Gweddill neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr fel rhan o'r Costau Heb Gael eu Dosbarthu.

  (iii) Llog net ar yr ymrwymiad budd diffiniedig net (ased) - y llog net ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o'r newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad diffiniedig net (ased) sy'n codi gydag amser ac sy'n cael ei godi yn erbyn yr Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn unol â'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd i fesur yr ymrwymiad budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r ymrwymiad budd diffiniedig net (ased) ar ddiwedd y cyfnod drwy gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad budd diffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a buddion.

  Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

  (i) Y dychweliad ar asedau cynlluniedig - ac eithrio'r symiau a gafodd eu cynnwys yn y llog net ar yr ymrwymiad budd diffiniedig net (ased) ac mae'n cael ei roi yn erbyn y Gronfa Bensiwn fel Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr Arall.

  (ii) Enillion neu golledion actiwarïaid - newid yn yr ymrwymiadau pensiwn net sy'n bodoli oherwydd nad yw'r digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau a wnaed adeg y prisiad actiwarïaid diwethaf neu oherwydd bod yr actwari wedi diweddaru ei dybiaethau sy'n cael eu rhoi yn erbyn y Gronfa Bensiwn fel Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr Arall.

Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd – arian a dalwyd fel rhan o gyfraniad y cyflogwr i'r gronfa bensiwn i dalu'r ymrwymiadau; nid yw'n cael ei gyfrifo fel gwariant.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae'r darpariaethau statudol yn nodi bod rhaid i falans y Gronfa Gyffredinol gynnwys y symiau sy'n daladwy gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn y flwyddyn, ac nid y swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu priodol. Golyga hyn fod yna drosglwyddiadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd i dynnu'r debydau a'r credydau tybiannol am fuddion ymddeol a'u cyfnewid gyda'r debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau eraill sy'n ddyledus ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae balans negyddol y Gronfa Bensiwn felly yn mesur yr effaith fanteisiol ar y Gronfa

Gyffredinol o fod yn gorfod cyfrifo am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag fel buddion a enillwyd gan y gweithwyr.

**Buddion Dewisol**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol o fuddion ymddeol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw ymrwymiadau a ragwelir i godi o ganlyniad i ddyfarniadau i unrhyw aelod o staff yn cael eu cronni yn y flwyddyn y gwnaed y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau a ddefnyddir yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn unol â phroses ymddeol yn gynnar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

8. **Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Riportio**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod riportio a'r dyddiad pan fydd y Datganiad o Gyfrifon yn cael ei awdurdodi ar gyfer ei gyhoeddi. Ceir dau fath o ddigwyddiadau:

- y rhai hynny sy'n cynnwys tystiolaeth o'r amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod riportio a dylai'r Datganiad o Gyfrifon gael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.

- y rhai hynny sy'n dangos arwydd o'r amodau a ymddangosodd ar ôl y cyfnod riportio. Nid oes angen addasu'r Datganiad o Gyfrifon i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith materol, byddai nodyn yn cael ei roi yn y nodiadau ynghylch natur y digwyddiadau ac amcangyfrif o'u heffaith ariannol.

Nid yw'r digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad awdurdodi yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

9. **Offerynnau Ariannol**

<u>Ymrwymiadau Ariannol</u>

Caiff Ymrwymiadau Ariannol eu cynnwys ar y Fantolen pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol, ac maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddio. Mae taliadau blynyddol yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ymrwymiadau, wedi'i luosi gyda chyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n union ddisgowntio'r taliadau arian a amcangyfrifir yn y dyfodol dros oes yr offeryn ar y swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Y swm a gyflwynir ar y fantolen mewn perthynas â benthyca hirdymor a byrdymor yw'r prif symiau sydd i'w had-dalu (+llog wedi cronni); ac incwm ar y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Mae'r enillion a'r colledion sy'n gysylltiedig ag adbrynu neu setlo benthyciadau yn gynnar yn cael eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setlo. Fodd bynnag, pan fydd yr adbryniadau wedi digwydd fel rhan o'r broses i ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu, neu ei ychwanegu at gost amorteiddio'r benthyciad newydd neu'r un sydd wedi'i addasu ac mae'n cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr dros oes y benthyciad gan addasu'r gyfradd llog effeithiol.

Pan fydd premiymau neu ddisgowntiau wedi cael eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei ymestyn dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bolisi lle bydd yr enillion neu'r golled yn cael ei ymestyn dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yn erbyn y premiwm a oedd yn daladwy neu'r disgownt a oedd yn berthnasol pan gafodd ei ad-dalu. Mae'r cysoniad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli drwy drosglwyddo i, neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd.

<u>Asedau Ariannol</u>

Ceir dau fath o asedau ariannol:

- benthyciadau a symiau derbyniadwy sy'n asedau ag ad-daliadau sefydlog neu sydd wedi eu penderfynu ond nad ydynt yn cael eu cynnwys ar y farchnad weithredol

- asedau sydd ar gael i'w gwerthu, sef asedau sydd â phris wedi ei ddyfynnu ar y farchnad a/neu sydd heb daliadau sefydlog neu wedi'u penderfynu.

<u>Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy</u>

Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy eu cynnwys ar y Fantolen pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol, ac maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg. Maent wedyn yn cael eu mesur ar eu cost amorteiddio. Mae'r credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ar gyfer llog derbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi gyda'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm derbyniadwy sy'n ddyledus (ynghyd â'r llog cronedig) a'r llog sydd wedi ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yw'r swm a dderbynnir ar gyfer y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

Pan fydd asedau wedi cael eu hadnabod fel rhai a leihawyd oherwydd y tebygolrwydd sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol na fyddai taliadau sy'n ddyledus o dan gontract yn cael eu gwneud, mae'r ased yn cael ei gofnodi a thâl yn cael ei godi yn erbyn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Mae'r golled lleihad yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig yn y dyfodol wedi ei ddisgowntio ar gyfradd llog gwreiddiol yr ased.

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n deillio o adnabod yr ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

<u>Asedau sydd ar gael i'w gwerthu</u>

Caiff asedau sydd ar gael i'w gwerthu eu cynnwys ar y Fantolen pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol, ac maent yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg. Pan fydd gan yr ased daliadau sefydlog neu sydd wedi eu penderfynu, mae'r taliadau blynyddol yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm amorteiddio'r ased, wedi'i luosi gyda chyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Pan nad oes taliadau sefydlog neu sydd wedi'u penderfynu, bydd yr incwm (e.e. buddrannau) yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei dderbyn.

Caiff asedau eu cynnwys ar y Fantolen ar eu gwerth teg. Mae'r gwerthoedd yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- offerynnau gyda phrisiau sydd wedi eu dyfynnu ar y farchnad – pris y farchnad
- offerynnau eraill sydd â thaliadau sefydlog neu sydd wedi eu penderfynu – dadansoddiad llif arian disgowntiedig
- soddgyfrannau heb brisiau sydd wedi eu dyfynnu ar y farchnad – gwerthusiad annibynnol o brisiadau cwmni.

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yn cael eu categoreiddio yn unol â'r tair lefel ganlynol:

- Mewnbynnau Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (sydd heb eu cymhwyso) ar y farchnad agored ar gyfer asedau unfath y gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gael mynediad iddynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau ar wahân i'r prisiau a ddyfynnwyd a gafodd eu cynnwys yn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased.

Mae newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod ar ffurf cofnod yn y Gronfa ar Gael i'w Gwerthu ac mae'r elw/golled yn cael ei gydnabod yn y Gweddill neu Ddiffyg ar Ailbrisiad Asedau Ariannol sydd ar gael i'w Gwerthu. Mae'r eithriad i hyn yn digwydd pan fydd colledion lleihau wedi digwydd – mae'r rhain yn cael eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, ochr yn ochr ag unrhyw elw neu golled net ar gyfer yr ased a gronnwyd yn y Gronfa ar Gael i'w Gwerthu.

Pan fydd asedau wedi cael eu hadnabod fel rhai a lleihawyd oherwydd y tebygolrwydd sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol na fyddai taliadau sy'n ddyledus o dan gontract yn cael eu gwneud, mae'r ased yn cael ei gofnodi a thâl yn cael ei godi yn erbyn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Os bydd gan yr ased daliadau sefydlog neu sydd wedi eu penderfynu, yna bydd y golled lleihad yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog effeithiol gwreiddiol yr ased Fel arall, bydd y golled lleihad yn cael ei fesur fel unrhyw ddiffyg o werth teg yn erbyn cost caffael yr offeryn (net o unrhyw brif ad-daliad ac amorteiddiad).

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n deillio o an-adnabyddiaeth o'r ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw elw neu golledion cronedig a nodwyd yn flaenorol yn y Gronfa ar Gael i'w Gwerthu. Pan na fydd yn bosib mesur gwerth teg yn ddibynadwy, bydd yr offeryn yn cael ei gario ar gost (llai unrhyw golledion lleihad).

## 10. Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau

Os ydynt yn cael eu talu ymlaen llaw, mewn rhandaliadau neu os ydynt yn ddyledus, mae grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti yn cael eu cydnabod gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd pan fydd sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac

- y derbynnir y grant neu'r cyfraniadau.

Nid yw'r symiau sy'n cael eu cydnabod fel eu bod yn ddyledus i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr hyd nes y bydd yr amodau sy'n gysylltiedig â'r grant wedi cael eu bodloni. Mae'r amodau hyn yn nodi bod rhaid i'r buddion economaidd yn y dyfodol neu botensial am wasanaeth sydd wedi cael ei ymgorffori yn yr asedau a gafaelwyd gan ddefnyddio'r grant neu gyfraniad

gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodir, neu bydd rhaid dychwelyd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth yn ôl i'r trosglwyddwr.

Mae'r arian a roddwyd fel blaendal i grantiau a chyfraniadau ac nad yw'r amodau wedi eu bodloni, yn cael eu cynnwys yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fydd yr amodau wedi eu bodloni, bydd y grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r maes perthnasol (grantiau refeniw y gellir eu priodoli a chyfraniadau) neu Drethiant ac Incwm Grant Heb fod yn Benodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Pan fydd enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, byddant yn cael eu tynnu allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd. Pan na fydd y grant wedi cael ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff y swm ei drosglwyddo i'r Gronfa Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd. Pan fydd wedi cael ei ddefnyddio, caiff y swm ei gynnwys yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf. Trosglwyddir y symiau sydd heb eu defnyddio yn y gronfa wrth gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf unwaith y byddant wedi cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

## 11. **Budd mewn endidau eraill**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fudd materol mewn endidau eraill sydd o natur ategol, gysylltiol ac sy'n cael eu rheoli ar y cyd, ac mae'n rhaid paratoi cyfrifon grŵp ar eu cyfer. Yng nghyfrifon endid unigol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd mae'r endidau eraill yn cael eu cofnodi yn unol â'r arferion cyfrifyddu priodol. O safbwynt cyfrifon grŵp Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, ystyrir bod Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn is-gorff sy'n perthyn 100% i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

## 12. **Rhestr Eiddo a Chontractau Hirdymor**

Mae rhestrau eiddo yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar werth isaf y gost a'r gwerth gwireddadwy net. Mae cost rhestrau eiddo yn cael ei neilltuo gan ddefnyddio'r fformiwla 'y cyntaf i mewn yw'r cyntaf allan' (FIFO). Mae contractau hirdymor yn cael eu cyfrif ar sail codi tâl yn y Gweddill neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda gwerth y gwaith neu wasanaethau a dderbynnir fel rhan o'r contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 13. **Asedau a Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd**

Mae gweithrediadau a reolir ar y cyd yn weithgareddau y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymgymryd â nhw ar y cyd â mentrwyr eraill ac sy'n defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Yn y Fantolen mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod yr asedau y mae'r Comisiynydd yn eu rheoli gan gynnwys ei gyfran o unrhyw asedau a ddelir ar y cyd a'r rhwymedigaethau sy'n codi gan gynnwys ei gyfran o unrhyw rwymedigaethau a ddelir ar y cyd, ac yn debydu ac yn credydu'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr gyda'r gwariant a wnaed ac unrhyw gyfran o'r gwariant a gyfyd ar y cyd a'r gyfran o'r incwm a gafwyd o weithgaredd yr ymgyrch.

Asedau a reolir ar y cyd yw eiddo, offer neu beiriannau a reolir ar y cyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a mentrwyr eraill, gyda'r asedau'n cael eu defnyddio er budd i'r mentrwyr. Nid yw menter ar y cyd yn cynnwys sefydlu endid ar wahân. Dim ond cyfrif am ei gyfran ei hun o'r asedau a reolir ar y cyd, y rhwymedigaethau a'r treuliau a gaiff ei hun neu ar y cyd ag eraill a wnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'i fudd yn y fenter ar y cyd ac incwm a enillir gan o'r fenter. Gellir gweld manylion unrhyw weithrediadau a reolir ar y cyd yn nodyn 21 yn y Cyfrifon.

14. **Prydlesi**

Mae prydlesi ariannol yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r buddion sy'n atodol i berchnogaeth yr eiddo, cyfarpar neu offer o'r prydleswr i ddaliwr y brydles. Mae'r holl brydlesi eraill yn cael eu galw'n brydlesi gweithredol.

Os yw prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, mae'r tir a'r adeiladau yn cael eu hystyried ar wahân i bwrpas dosbarthu.

Mae trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol fel prydles, ond sydd yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased am daliad yn cael eu cyfrif o dan y polisi hwn pan fydd cyflawni'r trefniant yn ddibynnol ar y defnydd o asedau penodol.

**Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel Prydleswr**

Prydlesi Ariannol

Mae eiddo, cyfarpar ac offer sydd ar brydles ariannol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar ei werth teg a fesurwyd ar y dechrau (neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf, os yn is). Mae'r ased yn cyfateb i'r cyfrifoldeb am yr ymrwymiad i dalu'r prydleswr. Mae'r costau uniongyrchol cychwynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased. Mae'r premiymau a dalwyd ar ddechrau'r brydles yn cael eu cymhwyso i gofnodi ymrwymiad y brydles. Mae rhenti amodol yn cael eu cofnodi fel treuliau yn y cyfnodau y mae hyn yn digwydd.

Mae taliadau prydlesi yn cael eu rhannu rhwng:

- tâl am gaffael y budd yn yr eiddo, cyfarpar neu offer sy'n cael ei godi i wrthdroi rhwymedigaeth y brydles, a

- thâl ariannu (yn cael ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr).

Mae eiddo, cyfarpar ac offer sy'n cael eu cydnabod o dan y prydlesi ariannol yn cael eu cyfrifo amdanynt trwy ddefnyddio'r polisïau sy'n gyffredinol berthnasol i asedau o'r fath, yn amodol ar ddibrisiant yn cael ei godi dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach na'r amcangyfrif ar gyfer oes ddefnyddiol yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd godi treth y cyngor i ariannu colledion dibrisio, ailbrisio, lleihau neu amorteiddio ar asedau ar brydles. Yn lle hynny, gwneir cyfraniad blynyddol o'r cronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf hwnnw yn unol â'r gofynion statudol. Mae dibrisiant, ailbrisio a cholledion lleihad yn cael eu hamnewid felly gan gyfraniad refeniw ym Malans y Gronfa Gyffredinol, trwy gyfrwng trafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesi Gweithredol

Mae'r rhenti a delir o dan y prydlesi gweithredol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr fel traul am ddefnyddio'r eiddo, y cyfarpar a'r offer sy'n cael ei brydlesu. Gwneir y taliadau ar sail llinell syth dros fywyd y brydles; hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm o daliadau (e.e. mae yna gyfnod di-rent ar ddechrau'r brydles).

**Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel Prydleswr**

Mae prydleswr yn gosod eiddo, cyfarpar neu offer o dan drefniant les i eraill.

Prydlesi Ariannol

Os bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn caniatáu prydles ariannol ar gyfer eiddo, cyfarpar neu offer, caiff yr ased perthnasol ei dynnu allan o'r fantolen fel eiddo wedi'i waredu. Ar gychwyn y brydles bydd gwerth cyfredol yr eiddo yn y fantolen (boed yn eiddo, cyfarpar neu offer neu'n asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu) yn cael ei drosglwyddo i'r llinell gwariant gweithredol arall yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled o waredu'r eitem dan sylw. Caiff yr elw sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn y les ei gredydu i'r un llinell yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr hefyd fel rhan o'r elw neu golled yn sgil y gwarediad (h.y. yn cael ei dynnu fel swm net oddi ar werth cyfredol yr ased ar amser y gwarediad), wedi'i gydweddu ag ased prydles (dyledwr hirdymor) yn y fantolen.

Mae prydlesi rhentu yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

- tâl am gaffael y budd yn yr eiddo – yn cael ei gredydu i ddyledwr y brydles (ynghyd ag unrhyw bremiymau a dderbyniwyd), ac
- incwm cyllid (yn cael ei gredydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr).

Ni chaniateir drwy statud i'r elw sy'n cael ei gredydu i'r datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr pan waredir eiddo neu ased gynyddu balans y gronfa gyffredinol a rhaid ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan dderbynnir premiwm, caiff hwn ei dynnu allan o falans y gronfa gyffredinol a'i symud i'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd. Pan fydd y swm sy'n ddyledus o ran yr ased sy'n cael ei brydlesu'n cael ei setlo drwy dalu rhent yn y blynyddoedd ariannol i ddod, caiff ei symud allan o falans y gronfa gyffredinol i'r gronfa derbyniadau cyfalaf gohiriedig yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd.

Pan dderbynnir rhent yn y dyfodol caiff yr elfen sy'n gysylltiedig â gwaredu'r ased ei gyhoeddi er mwyn lleihau ei werth ariannol i ddyledwr y brydles. Ar y pwynt hwn caiff y derbyniadau cyfalaf gohiriedig eu trosglwyddo i'r gronfa derbyniadau cyfalaf. Ni fydd y golled ar werth y gwarediad yn cael ei godi yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau anghyfredol wedi'i ddarparu ar ei gyfer yn llawn dan drefniadau ar wahân o dan ariannu cyfalaf. Caiff y symiau felly eu clustnodi i'r cyfrifon addasiadau cyfalaf o falans y gronfa gyffredinol drwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd.

Prydlesi Gweithredol

Os bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn caniatáu prydles weithredol ar gyfer eiddo, cyfarpar neu offer, caiff yr ased perthnasol ei gadw yn y fantolen. Caiff incwm o rent ei gredydu i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr. Gwneir y taliadau ar sail llinell syth dros fywyd y brydles; hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm o daliadau (e.e. premiwm wedi'i dalu ar ddechrau'r brydles). Caiff y costau uniongyrchol cychwynnol sy'n deillio o drafod neu drefnu'r brydles eu hychwanegu at werth cyfredol yr ased perthnasol a bydd yn cael ei nodi fel traul dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhentu.

15. **Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogi**

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogi yn cael eu priodoli i rannau penodol o'r gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol

16. **Eiddo, Cyfarpar ac Offer**

Mae asedau sydd â sylwedd corfforol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i bobl eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol, yn cael eu dosbarthu fel Eiddo, Cyfarpar ac Offer.

Adnabyddiaeth

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Cyfarpar ac Offer yn cael ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal, ond sydd ddim yn ychwanegu at botensial yr ased i gyflwyno buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth (h.y. gwaith trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul pan fydd yn digwydd.

Mesur

Yn y lle cyntaf, mae'r asedau'n cael eu mesur ar gost, yn cynnwys:

- pris y pryniant
- unrhyw gost sy'n berthnasol i ddod â'r ased i'r lleoliad ac yn y cyflwr sy'n angenrheidiol iddo gael ei ddefnyddio yn y modd y bwriedir gan y rheolwyr
- os yn berthnasol, yr amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac yn adfer y safle lle'r oedd yr eitem.

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyfalafu costau benthyca sydd wedi codi wrth adeiladu'r asedau.

Mae cost ased, ac eithrio pan fydd yn cael ei brynu, yn cael ei ystyried fel ei werth teg, oni bai nad oes gan yr hyn a gafaelwyd sylwedd masnachol (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiaeth yn y llif arian i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ). Yn yr achos olaf, pan fydd ased yn cael ei gaffael trwy gyfnewid, cost y caffael yw'r swm cario os yw'r ased yn cael ei roi i fyny gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae asedau a gafwyd yn rhodd yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng y gwerth teg ac unrhyw gydnabyddiaeth a dalwyd yn cael ei gredydu i'r llinell Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, (heblaw bod y rhodd wedi ei wneud yn amodol); hyd nes bydd yr amodau wedi eu bodloni cedwir yr enillion yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd. Pan fydd enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, byddant yn cael eu tynnu allan o Falans y Gronfa Gyffredinol a'u rhoi yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd.

Wedyn mae'r asedau yn cael eu cynnwys yn y Fantolen gan ddefnyddio'r sail mesur canlynol:

- Isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu - cost hanesyddol wedi ei ddibrisio
- Anheddau a'r holl asedau eraill – gwerth teg wedi ei bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (h.y. gwerth yn ei ddefnydd presennol neu EUV).

Pan nad oes unrhyw dystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol yr ased, defnyddir y gost adnewyddu dibrisiedig fel amnewidyn ar gyfer gwerth teg.

Pan fydd asedau di-eiddo sydd â bywydau defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau) yn dibrisio, fe ddefnyddir y gost hanesyddol fel amnewidyn ar gyfer gwerth teg.

Mae asedau sy'n cael eu cynnwys yn y Fantolen ar eu gwerth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw eu swm cario yn wahanol iawn i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, a gwneir hyn o leiaf bob pum mlynedd. Mae'r cynnydd yn y prisiadau yn cyfateb i gredydau yn y Gronfa Ailbrisio i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Fel eithriad, gall enillion gael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr pan maent yn deillio o wrthdroi colled a godwyd yn flaenorol.

Pan adnabyddir gostyngiad mewn gwerth, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- pan fydd cydbwysedd o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio, bydd swm cario'r ased yn cael ei godi ar refeniw yn erbyn y balans (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan na fydd arian yn y gronfa ailbrisio neu pan fydd y balans yn annigonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei godi ar refeniw yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys enillion ailbrisio cydnabyddedig ers 1 Ebrill 2007 yn unig, y dyddiad y cafodd ei gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwn wedi cael eu cynnwys yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Lleihad

Mae asedau yn cael eu hasesu ar ddiwedd bob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai fod yn ased sydd â lleihad. Pan fydd arwyddion o hyn yn bodoli, ac unrhyw wahaniaethau posibl yn cael eu hamcangyfrifo i fod yn faterol, fe amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased, a phan fydd yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled lleihad am y diffyg.

Pan fydd colledion lleihad yn cael eu hadnabod, byddant yn cael eu cyfrif amdanynt fel a ganlyn:

- pan fydd cydbwysedd o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio, bydd swm cario'r ased yn cael ei godi ar refeniw yn erbyn y balans (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan na fydd arian yn y gronfa ailbrisio neu pan fydd y balans yn annigonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei godi ar refeniw yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Pan fydd colled lleihad yn cael ei wrthdroi ar ôl hynny, bydd y gwrthdroi yn cael ei gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant fyddai wedi cael ei godi pe na bai'r golled wedi'i chydnabod.

Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar yr holl asedau Eiddo, Cyfarpar ac Offer drwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol gyfyngedig bendant (h.y. tir rhydd-ddaliad) ac asedau nad ydynt ar gael eto ar gyfer eu defnyddio (asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Pan fydd gan ased gydrannau pwysig sydd â gwerth sylweddol, bydd y cydrannau yn cael eu dibrisio ar wahân. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gosod y cyfyngiadau de-minimus canlynol a bydd y cydrannau yn cael eu cydnabod ar wahân dim ond pan fydd:

(i) Bywyd sy'n weddill y cydrannau rhwng 0 a 10 mlynedd a gwerth y cydrannau dros £50mil

(ii) Bywyd sy'n weddill y cydrannau rhwng 10 a 15 mlynedd a gwerth y cydrannau dros £100mil

(iii) Bywyd sy'n weddill y cydrannau rhwng 15 a 20 mlynedd a gwerth y cydrannau dros £250mil

(iv) Bywyd sy'n weddill y cydrannau rhwng 20 a 30 mlynedd a gwerth y cydrannau dros £400mil

(v) Bywyd sy'n weddill y cydrannau rhwng 30 a 40 mlynedd a gwerth y cydrannau dros £800mil

(vi) Bywyd sy'n weddill y cydrannau rhwng 40 a 50 mlynedd a gwerth y cydrannau dros £1500mil

(vii) Bywyd sy'n weddill y cydrannau rhwng 50 a 60 mlynedd a gwerth y cydrannau dros £200mil

| Math o Ased: | Polisi Dibrisio: |
|---|---|
| Adeiladau | Wedi dibrisio dros y bywyd disgwyliedig fel y dywedodd y prisiwr ar drefn llinell syth a'u hailbrisio o leiaf pob 5 mlynedd |
| Offer Cyfrifiadurol | Llinell syth dros 3 i 5 mlynedd yn dechrau yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. |
| Offer Cyffredinol, Dodrefn a Ffitiadau ac Offer Radio | Llinell syth dros 7 i 10 mlynedd yn dechrau yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. |
| Cerbydau | Llinell syth dros 4 blynedd yn dechrau yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. |
| Tir | Nid oes dibrisiant ar dir heb ei ddatblygu. |

Mae enillion ailbrisio hefyd yn dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Gwaredu ac Asedau Anghyfredol sy'n cael eu dal i'w Gwerthu

Pan fydd yn dod yn debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodyn gwerthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased wedi'u dal i'w Gwerthu. Mae'r ased yn cael ei ailbrisio yn union cyn iddo gael ei ailddosbarthu ac yna yn cael ei gario ar y gwerth isaf rhwng y swm hwn a'r gwerth teg llai'r costau i'w werthu. Pan fydd gostyngiad dilynol yn y gwerth teg llai'r costau i'w werthu, mae'r golled yn cael ei gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Mae enillion gwerth teg yn cael eu cydnabod yn unig hyd at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabyddir yn y Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Nid yw dibrisiant yn cael ei godi ar Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau yn diwallu'r meini prawf bellach i gael eu dosbarthu'n Asedau wedi'u dal i'w Gwerthu, byddant yn cael eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol ac yn cael eu prisio ar begwn isaf eu swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel asedau i'w gwerthu (wedi'i addasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddent wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthu fel Wedi'u dal i'w Gwerthu), a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Fe ddatgelir manylion unrhyw eiddo sydd wedi'i glustnodi fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu yn y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Nid oedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd unrhyw asedau wedi'u dal i'w gwerthu ar 31 Mawrth 2017.

Nid yw asedau sydd i gael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu dosbarthu fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddigomisiynu, mae swm cario'r ased yn y Fantolen (boed yn Eiddo, Cyfarpar, Offer neu'n Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu ar y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu. Credydir derbyniadau o waredidau (os oes rhai) i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu (h.y. net yn erbyn gwerth cario'r ased adeg y gwarediad). Mae unrhyw enillion ailbrisio cronedig ar gyfer yr ased sydd yn y Gronfa Ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau a dderbyniwyd ar gyfer gwarediadau sydd dros £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'r balans o'r derbyniadau yn cael ei gredydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ac wedyn gellir ond ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd (neu ei neilltuo er mwyn lleihau angen sylfaenol y

Comisiynydd Heddlu a Throsedd i fenthyca - y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd.

Nid yw gwerth dileu gwaredion yn cael eu rhoi yn erbyn treth cyngor, gan fod cost asedau sefydlog yn cael ei ddarparu yn llawn ar ei gyfer o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff y symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd.

## 17. Menter Cyllid Preifat

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cytuno ar un cytundeb Menter Cyllid Preifat hirdymor ble mae'r contractwr yn gyfrifol am gynllunio, adeiladu, cyllido a chynnal y Ddalfa, y Cyfleuster Digwyddiadau Sylweddol, y Cyfleuster Cefnogaeth Wyddonol a'r swyddfeydd yn Llanelwy. Gan mai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw rheolwr tybiedig y gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y cynllun Menter Cyllid Preifat a gan fod perchnogaeth yr asedau yn trosglwyddo i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar ddiwedd y contract heb gost ychwanegol, mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnwys yr asedau sefydlog a ddefnyddir o dan y contractau ar ei Fantolen.

Mae'r gydnabyddiaeth wreiddiol am yr asedau sefydlog hyn wedi ei fantoli gyda chydnabyddiaeth o'r ymrwymiad am y symiau sy'n ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am yr asedau.

## 18. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

Gwneir darpariaethau pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi gofyniad cyfreithiol neu adeiladol ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, sy'n ei gwneud yn ofynnol yn ôl pob tebyg i setlo drwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial y gwasanaeth, ac mae modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y ddyled.

Mae darpariaethau yn cael eu codi fel traul yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn ymwybodol o'r ddyled, ac yn cael eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y fantolen ar y gwariant sydd ei angen i setlo'r ddyled, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau perthnasol a'r ansicrwydd.

Pan fydd taliadau'n cael eu gwneud yn y pen draw, maent yn cael eu rhoi yn erbyn y ddarpariaeth yn y Fantolen. Bydd y setliadau a amcangyfrifwyd yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a ble y mae'n dod yn llai na thebygol y bydd yr angen am drosglwyddo buddion economaidd bellach yn ofynnol (neu setliad is na'r disgwyl yn cael ei wneud); mae'r ddarpariaeth yn cael ei wrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fydd disgwyliad y bydd rhan o'r taliad neu'r taliad cyfan sy'n ofynnol i setlo darpariaeth yn cael ei adennill oddi wrth barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), cydnabyddir hwn fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol dim ond os yw bron yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn pe bai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn setlo'r ddyled.

Mae gan y sefydliad yswiriant ar gyfer risgiau sydd heb eu sicrhau'n allanol ac mae'r yswiriant hefyd yn cynnwys unrhyw ormodedd ar bolisïau yswiriant allanol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys risgiau cyhoeddus a chyflogwr. Mae yna hefyd rwymedigaethau digwyddiadol i'w talu o'r ddarpariaeth hon.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus wedi ei gynnwys o fewn lleihad yn yr Asedau Cyfredol.

Ymrwymiad i Leihau Carbon (CRC), Cynllun Effeithlonrwydd Ynni - mae hwn yn gynllun gorfodol ar gyfer sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus a phreifat ac mae wedi ei gynllunio i wella effeithiolrwydd ynni ac i gwtogi ar allyriadau. Mae'n ofynnol ar y sefydliadau sy'n gymwys i brynu ac ildio lwfansau carbon ar sail eu gollyngiadau a dylent gynnwys unrhyw ymrwymiadau yn eu cyfrifon. Ar hyn o bryd nid oes rhaid i'r

Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymryd rhan yn y cynllun oherwydd bod ei allyriadau presennol yn is na'r trothwy.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi pan fydd rhywbeth wedi digwydd sydd yn rhoi gofyniad posibl ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ond ni ellir cadarnhau ei fodolaeth oni bai i bethau eraill ddigwydd neu beidio digwydd yn y dyfodol a hynny efallai allan o reolaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gallant godi mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth fel arall yn cael ei wneud ond naill ai nid yw'n debygol y bydd all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur natur y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond maent yn cael eu cynnwys mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau Digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn codi pan fydd rhywbeth wedi digwydd sydd yn rhoi gofyniad posibl ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ond ni ellir cadarnhau ei fodolaeth oni bai i bethau eraill ddigwydd neu beidio digwydd yn y dyfodol a hynny efallai allan o reolaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Nid yw asedau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond maent yn cael eu cynnwys mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu wasanaeth.

19. **Cronfeydd wrth Gefn**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn neilltuo symiau penodol o arian wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu ar gyfer argyfyngau. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu creu trwy briodoli symiau allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd. Pan fydd gwariant sydd angen ei dynnu o'r gronfa wrth gefn, bydd yn cael ei dalu yn y flwyddyn honno i'r Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Mae'r gronfa wrth gefn wedyn yn cael ei neilltuo yn ôl i mewn i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd fel nad oes tâl net i dreth y cyngor am y gwariant yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

Cronfeydd Annefnyddadwy - cedwir rhai cronfeydd wrth gefn ar gyfer rheoli'r prosesau cyfrifyddu asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, buddion ymddeol a buddion y gweithwyr ac nid ydynt yn adnoddau y gellir eu defnyddio gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Esbonnir mwy am y cronfeydd wrth gefn yn y polisïau perthnasol o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

20. **Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf dan Statud**

Mae gwariant y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu ased anghyfredol yn cael ei drin fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau a godir fel nad oes unrhyw effaith ar lefel y gwariant refeniw.

21. **Cydnabod Refeniw o'r Trafodion Digyfnewid**

Mae asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion digyfnewid sy'n cael eu cydnabod yn unol â gofynion IAS 20 - Cyfrifyddu ar gyfer Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ac eithrio lle y dehonglir neu addasir ef i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus, yn cael eu nodi yn y Cod a/neu IPSAS 23, "Refeniw o Drafodion Digyfnewid (Trethi a Throsglwyddiadau)."

**Trafodion Trethiant** – Mae asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trethiant yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y digwyddodd y digwyddiad trethadwy, ar yr amod bod yr asedau yn bodloni'r diffiniad o ased ac yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer eu cydnabod fel ased**.**

**Heb fod yn Drafodion Trethiant** – Asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trosglwyddo sy'n cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r trefniant trosglwyddo yn gyfrwymol. Nid yw gwasanaethau o fath arall yn cael eu cydnabod.
Pan fydd trosglwyddiad yn ddarostyngedig i amodau, lle bydd yn ofynnol dychwelyd yr adnoddau trosglwyddo os nad yw'r amodau'n cael eu cyflawni, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod ei ymrwymiad nes bod yr amod yn cael ei gyflawni.

**Sail y Mesur o Ddosbarthiadau Mawr o Refeniw o'r Trafodion Digyfnewid** - Mae trethiant refeniw yn cael ei fesur ar y gwerth nominal o arian parod ac arian parod cyfatebol. Mae asedau a refeniw a gydnabuwyd o ganlyniad i drosglwyddo yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg yr asedau a gydnabuwyd ar ddyddiad y gydnabyddiaeth:

- Mae asedau ariannol yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth nominal oni bai bod gwerth arian yr amser yn berthnasol, ac yn yr achos yma mae gwerth presennol yn cael ei ddefnyddio, a gyfrifir gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt sy'n adlewyrchu risg gynhenid dal yr ased;
- Os nad ydynt yn asedau ariannol maent yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg, sy'n cael ei bennu drwy gyfeirio at werthoedd y farchnad weladwy neu drwy werthusiad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Mae derbyniadau yn cael eu cydnabod pan fydd trefniant trosglwyddo rhwymol yn ei le ond nid yw arian parod neu asedau eraill wedi eu derbyn.

22. **TAW**

Dim ond os bydd yn anadferadwy y bydd treth ar werth yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Yn gyffredinol, nid yw'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn cynnwys TAW gan fod unrhyw dreth a gesglir yn cael ei dalu i Gyllid a Thollau EM ac mae unrhyw TAW sydd wedi ei dalu yn cael ei hawlio'n ôl ganddynt.

23. **Gwerth Teg**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur rhai o'i offerynnau ariannol yn ôl eu gwerth teg ar y dyddiad riportio. Gwerth teg yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn o ganlyniad i werthu ased neu'n cael ei dalu i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng y rhai sy'n cymryd rhan yn y farchnad a'r dyddiad mesur. Mae'r mesuriad gwerth teg yn cymryd bod y trafodyn i werthu'r ased neu drosglwyddo'r ymrwymiad yn cymryd lle naill ai:

- yn y brif farchnad ar gyfer yr ased neu'r ymrwymiad, neu
- yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased neu'r ymrwymiad

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur gwerth teg ased neu ymrwymiad gan ddefnyddio'r tybiaethau y byddai'r rhai sy'n ymwneud â'r farchnad yn eu defnyddio wrth brisio'r ased neu'r ymrwymiad, gan gymryd bod y rhai sy'n ymwneud â'r farchnad yn gweithredu yn y modd mwyaf economaidd.

## Datganiad o'r Cyfrifoldebau dros y Datganiad o Gyfrifon

Pwrpas y datganiad hwn yw nodi beth yw cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

**Cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl**

Mae'n rhaid i'r Prif Gwnstabl:-

* wneud trefniadau i sicrhau bod ei faterion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y sefydliad hwn, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau).
* rheoli ei faterion busnes er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau ac er mwyn amddiffyn ei asedau.
* cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rwy'n cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

**Mark Polin Prif Gwnstabl Gogledd Cymru** Dyddiad:

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon Grŵp yn unol â'r arferion cywir sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

* dewis polisïau cyfrifyddu priodol ac yna wedi eu defnyddio'n gyson.
* dyfarnu a gwneud amcangyfrifon yn rhesymol a doeth.
* cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

* cadw cofnodion cyfrifyddu priodol cyfredol.
* cymryd camau rhesymol i atal a datrys twyll ac afreoleidd-dra arall.

**TYSTYSGRIF Y PRIF SWYDDOG CYLLID**

Paratowyd y datganiad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifyddu ac Archwilio Llywodraeth Leol (Cymru) 2014, ac mae'n adlewyrchu ffurf a chynnwys Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2016-2017 a Chod Ymarfer Riportio Gwasanaeth.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon hwn yn cyflwyno'n gywir ac yn deg sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl ar ddyddiad yr adroddiad ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

Mae'r dystysgrif archwilio ar dudalen 59 i 60.

**Tracey Martin (Prif Swyddog Cyllid)** Dyddiad:

## Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Pwrpas y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yw dangos i drethdalwyr y cyngor sut mae’r cyllid sydd ar gael i'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Prif Gwnstabl yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae’r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid hefyd yn dangos sut mae’r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau. Mae incwm a gwariant a gyfrifir amdano dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno’n fwy llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

| | Gwariant net i’w briodoli i’r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail cyfrifo a’r sail ariannu (Nodyn 3) | Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr | Gwariant net i’w briodoli i’r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a’r sail ariannu (Nodyn 3) | Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-2016 | | | 2016-2017 | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Plismona | 172,098 | -4,464 | 167,634 | 175,907 | -18,156 | 157,751 |
| **Cost net o Wasanaethau cyn trosglwyddo rhwng grwpiau** | **172,098** | **-4,464** | **167,634** | **175,907** | **-18,156** | **157,751** |
| Trosglwyddo o fewn y Grŵp | -172,098 | 0 | -172,098 | -175,907 | 0 | -175,907 |
| **Cost Net am Wasanaethau** | **0** | **-4,464** | **-4,464** | **0** | **-18,156** | **-18,156** |
| Incwm a Gwariant Arall | 0 | 50,929 | 50,929 | 0 | 48,165 | 48,165 |
| **Gweddill(-)/Diffyg(+) ar ddarparu gwasanaethau** | **0** | **46,465** | **46,465** | **0** | **30,009** | **30,009** |

## Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr

Mae'r datganiad hwn yn dangos costau cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Y sefyllfa o ran asedau net yw 'dim', gan fod cost plismona'n cael ei ariannu trwy drosglwyddo gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r Prif Gwnstabl. Caiff y sefyllfa ariannol gyffredinol ei adrodd o fewn Datganiadau Ariannol y Grŵp.

| Gwariant Gros 2015-2016 £000 Ailddatganiad | | Gwariant Gros 2016-2017 £000 |
|---|---|---|
| 51,931 | Swyddogion yr Heddlu | 52,452 |
| 33,354 | Swyddogion Cefnogi | 32,957 |
| 43,769 | Pensiynau | 35,942 |
| 1,865 | Lwfansau | 1,682 |
| 1,851 | Costau Gweithwyr Anuniongyrchol | 648 |
| 6,048 | Eiddo | 6,156 |
| 2,771 | Costau Teithio | 2,646 |
| 17,792 | Nwyddau a Gwasanaethau | 17,394 |
| 9,651 | Taliadau Trydydd Parti | 9,836 |
| 104 | Gwasanaethau Cefnogi | 103 |
| 0 | Dibrisiad, amorteiddio a lleihad | 0 |
| -1,878 | Gwariant CHTh ar grantiau a mentrau | -1,991 |
| 376 | Croniad absenoldebau heb eu digolledu | -74 |
| **167,634** | **Cost Gwasanaethau** | **157,751** |
| -172,098 | Cost Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | **-175,907** |
| **-4,464** | **Cost Net am Wasanaethau** | **-18,156** |
| 50,929 | Incwm a gwariant Ariannu a Buddsoddi | 48,165 |
| **46,465** | **Gweddill (-) neu ddiffyg (+) net ar Ddarparu Gwasanaethau** | **30,009** |
| -227,514 | Enillion (-)/Colledion (+) Actiwarïaid ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | 286,212 |
| **-227,514** | **Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr Arall** | **286,212** |
| 181,049 | Trosglwyddo o fewn y Grŵp | -316,221 |
| **0** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **0** |

## Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn ar y gwahanol gyfrifon sydd gan y Prif Gwnstabl.

| | Balans y Gronfa Gyffredinol<br>£000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf<br>£000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso<br>£000 | **Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy**<br>**£000** | **Cronfeydd Annefnyddadwy**<br>**£000** | **Cyfanswm Cronfeydd y Prif Gwnstabl**<br>**£000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **0** | **0** | **0** | **0** | **-4,176** | **-4,176** |
| Symudiadau yn y cronfeydd yn ystod 2015-16 | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr | -46,465 | 0 | 0 | **-46,465** | **46,089** | **-376** |
| Addasiadau rhwng y sail cyfrifo a'r sail ariannu dan y rheoliadau (Nodyn 4) | 46,465 | 0 | 0 | **46,465** | **-46,465** | **0** |
| Cynnydd (+)/gostyngiad (-) net yn 2015-16 | **0** | **0** | **0** | **0** | **-376** | **-376** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016 a ddygwyd ymlaen** | **0** | **0** | **0** | **0** | **-4,552** | **-4,552** |
| Symudiadau yn y cronfeydd yn ystod 2016-17 | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr | -30,009 | 0 | 0 | **-30,009** | **30,083** | **74** |
| Addasiadau rhwng y sail cyfrifo a'r sail ariannu dan y rheoliadau (Nodyn 4) | 30,009 | 0 | 0 | **30,009** | **-30,009** | **0** |
| Cynnydd (+)/gostyngiad (-) net yn 2016-17 | **0** | **0** | **0** | **0** | **74** | **74** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017 a ddygwyd ymlaen** | **0** | **0** | **0** | **0** | **-4,478** | **-4,478** |

## Mantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth asedau ac ymrwymiadau a gydnabyddir gan y Prif Gwnstabl. Y sefyllfa o ran asedau net yw 'dim', gan fod y trafodion o fewn y grŵp yn trosglwyddo'r asedau a'r dyledion i gyfrifon y Grŵp/Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw gronfeydd wrth gefn i dalu unrhyw ddyledion oherwydd caiff y rhain eu dal gan y Grŵp a chaiff y sefyllfa ariannol hollgynhwysfawr ei riportio o fewn Datganiadau Ariannol y Grŵp.

| 31 Mawrth 2016 £000 | | 31 Mawrth 2017 £000 |
|---:|---|---:|
| 1,366,201 | Dyled Hirdymor gyda'r CHTh (Nodyn 14) | 1,682,496 |
| 1,366,201 | **Asedau Hirdymor** | 1,682,496 |
| 304 | Rhestrau Eiddo (nodyn 10) | 776 |
| 912 | Rhagdaliadau (Nodyn 11) | 3,592 |
| 7,515 | Trosglwyddiadau o fewn y Grŵp (Nodyn 1) | 7,717 |
| 8,731 | **Asedau Cyfredol** | 12,085 |
| -12,067 | Credydwyr Tymor Byr (nodyn 12) | -12,195 |
| -1,216 | Trosglwyddiadau o fewn y Grŵp (Nodyn 1) | -4,368 |
| -13,283 | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | -16,563 |
| -1,366,201 | Ymrwymiadau Pensiwn (Nodyn 17) | -1,682,496 |
| -1,366,201 | **Rhwymedigaethau Hirdymor** | -1,682,496 |
| **-4,552** | **Asedau Net** | **-4,478** |
| -4,552 | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | -4,478 |
| **-4,552** | **Cyfanswm Cronfeydd Annefnyddiadwy** | **-4,478** |

## Datganiad Llif Arian

Mae'r datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod riportio. Mae'r holl arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cael eu dal gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac yn cael eu dangos o fewn Cyfrifon y Grŵp.

| 2015-2016 £000 | | 2016-2017 £000 |
|---|---|---|
| 46,465 | Gweddill (-) neu ddiffyg (+) net ar ddarparu gwasanaethau | 30,009 |
| -46,465 | Addasiad gweddill (-) neu ddiffyg (+) net er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau heb fod yn arian | -30,009 |
| 0 | Addasiad ar gyfer eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y gweddill (-) neu ddiffyg (+) net er mwyn darparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu | 0 |
| 0 | Llif arian net o Weithgareddau Gweithredol | 0 |
| 0 | Gweithgareddau buddsoddi | 0 |
| 0 | Gweithgareddau Ariannu | 0 |
| **0** | **Cynnydd (-) neu ostyngiad (+) net mewn arian a chyfwerth ag arian** | **0** |
| 0 | Arian a chyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod riportio | 0 |
| **0** | **Arian a chyfwerth ag arian ar ddiwedd y cyfnod riportio** | **0** |

## Nodiadau i Ddatganiad Cyfrifon y Prif Gwnstabl

1. **Trosglwyddo o fewn y Grŵp**

   Mae'r trosglwyddiad o fewn y grŵp yn cynrychioli'r symiau tymor byr sy'n ddyledus yn berthnasol i'r credydwyr, rhagdaliadau, rhestrau eiddo ac addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu a dderbyniwyd gan y Prif Gwnstabl ar y 31 Mawrth 2017.

2. **Ailddatganiad o'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr**

   Mae Cod 2016-2017 yn newid gofynion riportio cylchrannol ar gyfer y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ac yn cyflwyno'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid. Nid oes gofyniad bellach i adrodd ar gost gwasanaethau unigol yn unol â Chod Ymarfer Riportio Gwasanaeth CIPFA. Mae'r fformat newydd yn unol â gofynion y Cod sef y dylai riportio ddilyn trefn riportio mewnol ar incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn. Mae angen ail-ddatganiad felly i'r ffigyrau cymharol ar gyfer 2015-2016 yn unol â'r Cod.

3. **Nodiadau i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid**

| **Addasiadau rhwng Sail Cyllid a Chyfrifyddu 2016-2017** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i gyrraedd symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **Addasiadau at ddibenion Cyfalaf (Nodyn 1)** | **Newid net ar gyfer Addasiadau Pensiwn (Nodyn 2)** | **Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| Prif Gwnstabl | 0 | -18,082 | -74 | **-18,156** |
| **Cost Net am Wasanaethau** | **0** | **-18,082** | **-74** | **-18,156** |
| Incwm a gwariant arall o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid | 0 | 48,165 | 0 | **48,165** |
| **Gwahaniaeth rhwng y gweddill/diffyg yn y Gronfa Gyffredinol a'r gweddill/diffyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ar ddarpariaeth gwasanaethau** | **0** | **30,083** | **-74** | **30,009** |

| **Addasiadau rhwng Sail Cyllid a Chyfrifyddu 2015-2016** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i gyrraedd symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **Addasiadau at ddibenion Cyfalaf (Nodyn 1)** | **Newid net ar gyfer Addasiadau Pensiwn (Nodyn 2)** | **Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| Prif Gwnstabl | 0 | -4,840 | 376 | **-4,464** |
| **Cost Net am Wasanaethau** | **0** | **-4,840** | **376** | **-4,464** |
| Incwm a gwariant arall o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid | 0 | 50,929 | 0 | **50,929** |
| **Gwahaniaeth rhwng y gweddill/diffyg yn y Gronfa Gyffredinol a'r gweddill/diffyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ar ddarpariaeth gwasanaethau** | **0** | **46,089** | **376** | **46,465** |

**Nodyn 1: Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf**

Mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant a lleihad ac enillion a cholledion ailbrisiad yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

**Gwariant gweithredol arall** – mae'n addasu ar gyfer gwaredu cyfalaf gyda throsglwyddiad incwm wrth waredu asedau a'r symiau a ddilëir ar gyfer yr asedau hynny;

**Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi –** y taliadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. Darpariaeth Isafswm Refeniw ac unrhyw gyfraniadau refeniw eraill yn cael eu tynnu o incwm a gwariant arall gan nad ydynt yn daladwy dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol;

**Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol -** mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm nad oes modd codi amdano dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn i'r rhai hynny sy'n dderbyniadwy heb amodau neu pan bod amodau wedi cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae'r llinell Trethiant Incwm a Gwariant Grant Amhenodol yn cael ei gredydu gyda grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn heb amodau neu pan bod amodau wedi cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Gan fod pob ased eiddo, cyfarpar ac offer yn cael eu dal gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, nid oes unrhyw addasiadau yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl o ran cyfrifyddu ac ariannu cyfalaf.

**Nodyn 2: Newid net ar gyfer addasiadau pensiwn**

Newid net ar gyfer gwaredu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu incwm a gwariant yn gysylltiedig â phensiwn Buddion Gweithwyr IAS 19:

Ar gyfer **gwasanaethau** mae hyn yn cynrychioli gwaredu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y caniateir trwy statud, ac amnewid gyda chostau gwasanaeth presennol a gorffennol;

Ar gyfer **incwm a gwariant ariannu a buddsoddi –** mae'r llog net ar yr ymrwymiad budd diffiniedig yn cael ei briodoli i'r CIES.

**Nodyn 3: Gwahaniaethau Eraill**

Gwahaniaethau eraill rhwng symiau sy'n cael eu debydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr a'r symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod dan statud:

Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol am y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a disgowntiau;

Mae'r gost dan **Incwm a gwariant trethiant a grantiau amhenodol** yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae modd ei godi dan reoliadau statudol ar gyfer treth cyngor a'r NDR a ragwelwyd y byddai'n cael ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabuwyd dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Ceir ychydig o wahaniaeth o ran amseru a bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen i Weddillion a Diffygion yn y dyfodol yn y Gronfa Gasglu.

4. **Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau**

Mae'r nodyn hwn yn rhoi manylion am yr addasiadau sy'n cael eu gwneud i gyfanswm yr incwm a'r gwariant hollgynhwysfawr sy'n cael ei adnabod gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol ar gyfer yr adnoddau sy'n cael eu nodi dan ddarpariaethau statudol fel y rhai sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Mae mwyafrif yr addasiadau'n berthnasol i gyfrifon y Comisiynydd. Yr eithriadau yw'r addasiadau o ran y Gronfa Bensiwn a'r cyfrif Absenoldeb Cronedig a gyflwynir isod.

| 2016-2017 | Cronfeydd Defnyddiadwy | | | Symudiadau mewn Cronfeydd Annefnyddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| | Balans y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio £000 | £000 |
| **Addasiadau i Adnoddau Refeniw:** | | | | |
| Costau pensiwn (wedi'u trosglwyddo i (neu o'r) gronfa bensiwn) | | | | |
| Costau dibrisio neu leihau asedau anghyfredol | 30,083 | 0 | 0 | -30,083 |
| Colledion ailbrisio ar Eiddo, cyfarpar ac offer | | | | |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi eu defnyddio | | | | |
| Tâl gwyliau (wedi'i drosglwyddo i'r gronfa absenoldebau cronedig) | -74 | 0 | 0 | 74 |
| Offerynnau Ariannol (wedi'u trosglwyddo i'r FIAA) | | | | |
| Gwrthdroadau sy'n cael eu cynnwys yn yr SDPS mewn perthynas â gwariant cyfalaf (wedi'i roi yn erbyn y CAA) | | | | |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **30,009** | **0** | **0** | **-30,009** |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **30,009** | **0** | **0** | **-30,009** |

| 2015-2016 | Cronfeydd Defnyddiadwy | | | Symudiadau mewn Cronfeydd Annefnyddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| | Balans y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio £000 | £000 |
| **Addasiadau i Adnoddau Refeniw:** | | | | |
| Costau pensiwn (wedi'u trosglwyddo i (neu o'r) gronfa bensiwn) | | | | |
| Costau dibrisio neu leihau asedau anghyfredol | 46,089 | 0 | 0 | -46,089 |
| Colledion ailbrisio ar Eiddo, cyfarpar ac offer | | | | |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi eu defnyddio | | | | |
| Tâl gwyliau (wedi'i drosglwyddo i'r gronfa absenoldebau cronedig) | 376 | 0 | 0 | -376 |
| Offerynnau Ariannol (wedi'u trosglwyddo i'r FIAA) | | | | |
| Gwrthdroadau sy'n cael eu cynnwys yn yr SDPS mewn perthynas â gwariant cyfalaf (wedi'i roi yn erbyn y CAA) | | | | |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **46,465** | **0** | **0** | **-46,465** |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **46,465** | **0** | **0** | **-46,465** |

5. **Safonau Cyfrifyddu sydd wedi eu cyhoeddi ond sydd eto i'w mabwysiadu**

Mae'r Cod yn nodi bod rhaid i'r Prif Gwnstabl ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i effaith newid cyfrifyddol fydd yn ofynnol dan safon cyfrifyddu newydd sydd wedi'i chyflwyno ond sydd eto i'w mabwysiadu dan y Cod. Bydd rhaid gwneud y newidiadau canlynol o 1 Ebrill 2017 ymlaen ond ni ystyrir y byddant yn cael effaith sylweddol ar y Datganiad o Gyfrifon:

a) Addasiad i'r modd y caiff trafodion cynllun y gronfa bensiynau eu riportio - er mwyn cynorthwyo defnyddwyr y cyfrifon i ddeall costau rheolaeth y gronfa bensiwn trwy ddatgelu cyfanswm costau trafodion uniongyrchol ar gyfer pob dosbarth sylweddol o asedau. Nid oes disgwyl i effaith yr addasiad hwn effeithio'n sylweddol ar Ddatganiad y Cyfrifon.

b) Addasiad i'r modd y caiff crynhoad buddsoddiad ei riportio – ni ddisgwylir i effaith yr addasiad hwn i gael effaith faterol ar y Datganiad o Gyfrifon.

6. **Dyfarniadau Beirniadol wrth Ddefnyddio Polisïau Cyfrifyddu**

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi eu rhestru yn y Datganiadau, mae'r Prif Gwnstabl wedi gorfod gwneud rhai dyfarniadau am drafodion cymhleth neu rai oedd ag ansicrwydd yn eu cylch am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y dyfarniadau beirniadol a wnaed yn y Datganiad o Gyfrifon yw:-

- Cafwyd lleihad yn y nawdd a dderbyniwyd gan y llywodraeth ers 2011-2012. Mae hynny wedi golygu bod angen adolygiad strwythurol a'r canlyniad oedd i'r Prif Gwnstabl ddyfarnu diswyddiadau gwirfoddol i nifer o weithwyr. Mae cynlluniau mewn lle i gwrdd â'r diffyg ariannol yn y blynyddoedd i ddod, fodd bynnag nid yw'n sicr a fydd y lefel bresennol o doriadau yn ddigonol i wneud hyn dros gyfnod canolig y cynllun ariannol ac o'r herwydd efallai y bydd angen rhagor o ddiswyddiadau.

7. **Tybiaethau a Wnaed am y Dyfodol a Phrif Darddiadau Amcangyfrifon Ansicr Eraill**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifiedig sydd wedi eu seilio ar dybiaethau a wnaed gan y Prif Gwnstabl am y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Mae'r amcangyfrifon yn ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn faterol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2017 sydd â risg sylweddol o addasiad materol yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith y Canlyniadau Gwirioneddol os yn Wahanol i'r Tybiaethau |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth Pensiwn | Mae'r amcangyfrif o'r ddyled net i dalu pensiynau yn ddibynnol ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y mae cyflogau yn debygol o gynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac enillion disgwyliedig ar asedau cronfeydd pensiwn Mae cwmni o actiwarïaid ymgynghorol wrthi'n rhoi cyngor arbenigol i'r Prif Gwnstabl ynghylch y rhagdybiaethau i'w defnyddio. | Gall yr effeithiau ar y ddyled pensiwn net o newidiadau o ran tybiaethau unigol gael eu mesur. Er enghraifft, effaith cynnydd neu ostyngiad yn y tybiaethau; ceir mwy o wybodaeth ar gynnydd neu ostyngiad yn y gyfradd ddisgownt yn Nodyn 17. Yn ystod 2016-2017 dywedodd actiwarïaid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fod y ddyled pensiwn net wedi codi £316.295 miliwn o ganlyniad i'r ymarfer prisiant actiwarïaid yn 2016. Gellir priodoli hyn yn bennaf i'r newidiadau a welwyd o ran ail-fesur tybiaethau ac amcangyfrifon. |

8. **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant perthnasol wedi cael eu gosod yn wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

9. **Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Mae Digwyddiadau materol sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod riportio a'r dyddiad pan fydd y Datganiad o Gyfrifon yn cael ei awdurdodi i'w gyhoeddi yn cael eu cynnwys yn y nodiadau. Lle bo digwyddiadau a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am gyflyrau oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2017, mae'r ffigyrau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

10. **Stociau**

| | **Storfa'r Pencadlys** | | **Storfeydd Eraill** | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2017 £000** | **2015-2016 £000** | **2016-2017 £000** | **2015-2016 £000** | **2016-17 £000** |
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | **193** | **190** | **111** | **186** | **304** |
| Eitemau wedi'u prynu | 434 | 376 | 679 | 246 | **1,113** |
| Eu hadnabod fel cost yn ystod y flwyddyn | -445 | -373 | -196 | -316 | **-641** |
| Balansau wedi eu diddymu | 0 | 0 | 0 | -5 | **0** |
| Gwrthdroi diddymiadau'r blynyddoedd blaenorol | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **182** | **193** | **594** | **111** | **776** |

11. **Rhagdaliadau**

| | **31.3.17 £'000** | **31.3.16 £'000** |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn -** | | |
| Cyrff Llywodraeth Ganolog | 0 | 0 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 3 | 56 |
| Cyrff GIG | 0 | 0 |
| Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | 77 | 47 |
| Endidau ac unigolion eraill | 3,512 | 809 |
| | **3,592** | **912** |

12. **Credydwyr**

| | **31.3.17 £'000** | **31.3.16 £'000** |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn -** | | |
| Cyrff Llywodraeth Ganolog | 2,664 | 2,753 |
| Awdurdodau Lleol eraill | 1,527 | 1,474 |
| Cyrff GIG | 10 | 30 |
| Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | 19 | 71 |
| Endidau ac unigolion eraill | 7,975 | 7,739 |
| | **12,195** | **12,067** |

## 13. Costau Archwilio Allanol

Mae'r Prif Gwnstabl wedi gorfod talu'r costau canlynol mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon ac ardystio ceisiadau am grant:

| | 2016-2017 | | | 2015-2016 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Grŵp | CHTh | PG | Grŵp | CHTh | PG |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru am wasanaethau archwilio allanol yr archwilydd penodedig | 90 | 45 | 45 | 90 | 45 | 45 |
| **Cyfanswm** | **90** | **45** | **45** | **90** | **45** | **45** |

Mae'r uchod yn cynrychioli taliadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2016-2017; y ffi strategaeth a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn archwilio rhwng Tachwedd 2016 a Hydref 2017 oedd £89,926 ar gyfer 2016-17.

## 14. Tâl Swyddogion

Mae'r tablau canlynol yn nodi manylion tâl Swyddogion Heddlu Perthnasol (y Prif Gwnstabl ac unrhyw Uwch Swyddog Heddlu sy'n ennill dros £150,000 y flwyddyn o gyflog); Uwch Swyddogion Heddlu (uwch na rheng Uwch-arolygydd) ac Uwch Weithwyr (dalwyr swyddi dynodedig corff llywodraeth leol). Mae costau'r Swyddogion a Staff isod wedi'u codi yn erbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

| 2016-2017<br>Daliwr y Swydd: | Nodiadau: | Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau)<br>£ | Bonwsau<br>£ | Lwfans Treuliau<br>£ | Treuliau Eraill<br>£ | Buddion eraill<br>£ | Cyfanswm tâl heb gynnwys cyfraniadau pensiwn<br>£ | Cyfraniadau Pensiwn<br>£ | Cyfanswm tâl gan gynnwys cyfraniadau pensiwn<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl – M. Polin | | 141,616 | 0 | 0 | 0 | 5,539 | 147,155 | 0 | 147,155 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl – G. Pritchard | 1 | 7,240 | 0 | 0 | 0 | 188 | 7,428 | 1,712 | 9,140 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | | 110,955 | 0 | 80 | 0 | 3,425 | 114,460 | 26,120 | 140,580 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | 2 | 5,962 | 0 | 0 | 0 | 204 | 6,166 | 1,361 | 7,527 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 3 | 105,316 | 0 | 6 | -4,146 | 3,716 | 104,892 | 24,929 | 129,821 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 4 | 5,108 | 0 | 0 | 0 | 102 | 5,210 | 1,048 | 6,258 |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 5 | 100,286 | 0 | 4,400 | 8,001 | 1,699 | 114,386 | 16,347 | 130,733 |
| Swyddog Meddygol yr Heddlu - Dr. A. Lister | 6 | 36,232 | 0 | 0 | 0 | 0 | 36,232 | 5,906 | 42,138 |

Nodyn 1: Bu daliwr y swydd yn ymgymryd â'r rôl hwn rhwng 13/3/2017 a 31/3/2017.
Nodyn 2: Bu daliwr y swydd yn ymgymryd â'r rôl hwn rhwng 13/3/2017 a 31/3/2017.
Nodyn 3: Mae treuliau eraill yn berthnasol i addasiad yn erbyn y flwyddyn flaenorol.
Nodyn 4: Bu daliwr y swydd yn ymgymryd â'r rôl hwn rhwng 13/3/2017 a 31/3/2017.
Nodyn 5: Treuliau eraill yn berthnasol i gostau adleoli.
Nodyn 6: Mae Swyddog Meddygol yr Heddlu yn gweithio llai o oriau dan gytundeb. Y cyflog amser llawn gyfwerth yw £168,478.

| 2015-2016<br><br>Daliwr y Swydd: | Nodiadau: | Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau)<br>£ | Bonwsau<br>£ | Lwfans Treuliau<br>£ | Treuliau Eraill<br>£ | Buddion eraill<br>£ | Cyfanswm tâl heb gynnwys cyfraniadau pensiwn<br>£ | Cyfraniadau Pensiwn<br>£ | Cyfanswm tâl gan gynnwys cyfraniadau pensiwn<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl – M. Polin | | 141,444 | 0 | 0 | 0 | 5,338 | 146,782 | 0 | 146,782 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | | 115,830 | 0 | 0 | 0 | 3,562 | 119,392 | 27,259 | 146,651 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 1 | 103,785 | 0 | 9 | 13,462 | 4,067 | 121,323 | 24,528 | 145,851 |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 2 | 96,774 | 0 | 11 | 0 | 2,581 | 99,366 | 21,008 | 120,374 |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 3 | 16,250 | 0 | 236 | 0 | 4,864 | 21,350 | 2,649 | 23,999 |
| Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol | 4 | 59,047 | 0 | 258 | 0 | 0 | 59,305 | 9,625 | 68,930 |
| Swyddog Meddygol yr Heddlu - Dr. A. Lister | 5 | 32,993 | 0 | 0 | 0 | 0 | 32,993 | 5,378 | 38,371 |

Nodyn 1: Treuliau eraill yn ymwneud â chostau adleoli.
Nodyn 2: Bu'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn ymgymryd â'r swydd hon o 1/4/2015 i 16/2/2016.
Nodyn 3: Fe ddechreuodd daliwr y swydd ar 1/2/2016 ac mae'n gweithio llawn amser.
Nodyn 4: Bu daliwr y swydd hon yn ymgymryd â'r dyletswyddau A.151 statudol ar gyfer y swydd Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau rhwng 1/4/2015 a 31/1/2016.
Nodyn 5: Mae Swyddog Meddygol yr Heddlu yn gweithio llai o oriau dan gytundeb. Y cyflog llawn amser cyfwerth yw £164,965

**2016-2017**

Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Prif Gwnstabl sy'n ennill dros £60,000 y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| Bandiau Cyflog | Nifer y Gweithwyr 2016-2017 | Nifer y Gweithwyr 2015-2016 |
|---|---|---|
| £60,000 - £64,999 | 14 | 16 |
| £65,000 - £69,999 | 3 | 7 |
| £70,000 - £74,999 | 8 | 6 |
| £75,000 - £79,999 | 4 | 7 |
| £80,000 - £84,999 | 5 | 1 |
| £85,000 - £89,999 | 1 | 3 |
| £90,000 - £94,999 | 0 | 1 |
| £95,000 - £99,999 | 0 | 1 |
| £100,000 - £100,499 | 0 | 0 |
| £105,000 - £109,999 | 0 | 2 |
| £110,000 - £114,999 | 0 | 0 |
| £115,000 - £119,999 | 0 | 0 |
| £120,000 - £124,999 | 0 | 0 |
| £125,000 - £129,999 | 0 | 0 |
| £130,000 - £134,999 | 0 | 1 |
| £135,000 - £139,999 | 0 | 1 |

O ganlyniad i'r diswyddiadau a welwyd yn 2015-16 mae'r tabl uchod yn cynnwys costau ychwanegol ar gyfer rhai o'r gweithwyr a gafodd eu talu yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion y nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau eraill i'w gweld yn y tabl canlynol:

| **Band cost pecynnau ymadael (yn cynnwys taliadau arbennig)** | **Nifer y diswyddiadau gorfodol** | | **Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd** | | **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael ym mhob band cost** | | **Cyfanswm cost y pecynnau ymadael ym mhob band** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2015-16 Nifer** | **2016-17 Nifer** | **2015-16 Nifer** | **2016-17 Nifer** | **2015-16 Nifer** | **2016-17 Nifer** | **2015-16 £000** | **2016-17 £000** |
| £ 0 - £20,000 | 2 | 0 | 9 | 0 | 11 | 0 | 128 | 0 |
| £ 20,001 - £40,000 | 0 | 0 | 14 | 0 | 14 | 0 | 438 | 0 |
| £ 40,001 - £60,000 | 1 | 0 | 8 | 1 | 9 | 1 | 459 | 46 |
| £ 60,001 - £80,000 | 1 | 0 | 9 | 5 | 10 | 5 | 729 | 378 |
| £ 80,001 ac uwch | 0 | 0 | 5 | 6 | 5 | 6 | 501 | 557 |

**Cymhareb Tâl Canolrif**

Mae'r gymhareb tâl canolrif yn cymharu tâl cyfwerth â llawn amser y Prif Gwnstabl â chymhareb tâl canolrif llawn amser staff a gyflogir gan y Prif Gwnstabl.

| | **2016-2017** | **2015-2016** |
|---|---|---|
| Tâl y Prif Gwnstabl | 147,155 | 146,782 |
| Tâl canolrif staff y Prif Gwnstabl | 33,642 | 33,263 |
| Cymhareb tâl canolrif: | 4.4 | 4.4 |

15. **Partïon Perthnasol**

Mae'r Prif Gwnstabl yn un o ymddiriedolwyr PACT (Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned). Mae'r Grŵp yn rhoi arian a gaiff o Gyfrif Cronfa Eiddo'r Heddlu i PACT i gefnogi prosiectau gyda'r nod o godi proffil diogelwch yn y gymuned, lleihau'r ofn o drosedd yn sylweddol ac o ganlyniad, gwella ansawdd bywyd trigolion ledled Gogledd Cymru. Yn ystod 2016-2017 rhoddwyd £22,500 o'r gronfa i PACT a chefnogaeth ariannol o £42,437 tuag at gostau gweinyddu'r Gronfa.

Mae'r Prif Gwnstabl yn ymwneud â Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau sy'n bartneriaeth wedi ei hariannu gan grantiau, sydd â chyfrifoldeb dros leihau troseddau a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau trwy ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys swyddogion Heddlu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Iechyd Lleol, Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, Llys Ynadon Gogledd Cymru, Gwasanaeth Carchardai ei Mawrhydi, Y Ganolfan Byd Gwaith a Llywodraeth Cymru.

16. **Buddion Terfynu**

Defnyddiodd y Prif Gwnstabl y rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'i diwygiwyd) a
- Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru
- a Lloegr) 2000 (fel y'i diwygiwyd) ac fe derfynwyd contractau nifer o weithwyr yn 2016-2017 ar gost o £0.981 miliwn (2015-2016 £2.255m) fel y'i datgelwyd yn nodyn 14.

17. **Cynlluniau Pensiwn Gyda Buddion Diffiniedig**

Fel rhan o'i delerau a'i amodau i gyflogi swyddogion heddlu a staff, mae'r Prif Gwnstabl yn cynnig buddion pensiwn. Er na thelir y rhain hyd nes y bydd gweithwyr yn ymddeol, mae'n rhaid i'r Prif Gwnstabl wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu ar yr amser pan fydd y gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae'r Prif Gwnstabl yn cyfrannu tuag at ddau gynllun pensiwn:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer Staff yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, sydd yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol, sy'n golygu bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i mewn i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd yn cydbwyso'r ymrwymiadau pensiwn â'r asedau buddsoddi. Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystyried y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fel un corff ac nid ydynt wedi cael eu rhoi ar wahân yn y cyfrifon.

Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddion ôl-ymddeol dewisol pan fydd unigolion yn ymddeol yn gynnar - mae hwn yn drefniant heb ei ariannu gyda buddion diffiniedig, ac mae'r ymrwymiadau'n cael eu cydnabod pan fo'r dyfarniadau'n cael eu gwneud. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi ar gyfer diwallu'r ymrwymiadau pensiwn hyn, ac mae rhaid cynhyrchu arian parod i ddiwallu'r gwir daliadau pensiwn pan fyddant yn ddyledus.

Mae Cynllun Pensiwn Gwynedd yn cael ei weinyddu yn unol â fframwaith rheoleiddio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyfrifoldeb Pwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd yw trefn llywodraethu'r cynllun. Mae'r Polisi yn cydymffurfio â rheoliadau Cynlluniau Pensiwn. Mae rheolwyr buddsoddi'r gronfa yn cael eu penodi gan y pwyllgor.

Y prif risgiau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r cynllun ydi'r tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun (h.y. alldyniadau mawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, elw bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti sydd gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gyda'r gofynion statudol i roi'r symiau sy'n angenrheidiol gan statud fel y'i disgrifir yn y nodyn ar bolisïau cyfrifyddu yn erbyn y Gronfa Gyffredinol.

- Cynllun Pensiwn ar gyfer Swyddogion yr Heddlu. Mae hwn yn gynllun heb ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol, gan olygu nad oes asedau buddsoddi ar gyfer diwallu'r ymrwymiadau pensiwn hyn, ac mae rhaid cynhyrchu arian parod i ddiwallu'r gwir daliadau pensiwn pan fyddant yn ddyledus. Dan Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007, os bydd y symiau sy'n cael eu derbyn gan y gronfa bensiwn yn y flwyddyn yn llai na'r symiau sy'n daladwy, mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu A Throsedd drosglwyddo arian yn flynyddol ar gyfer cyfarfod y diffyg yn y gronfa bensiwn. Yn amodol ar archwiliad a chymeradwyaeth y senedd, mae hyd at 100% o'r gost yn daladwy gan grant pensiwn ychwanegol gan y llywodraeth ganolog. Fodd bynnag, os oes arian yn weddill yn y gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, yna rhaid trosglwyddo'r gweddill o'r gronfa bensiwn yn ôl i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a bydd rhaid iddo ef wedyn ad-dalu'r swm yn ôl i'r llywodraeth ganolog.

<u>Buddion ôl-ymddeol dewisol</u>
Mae'r buddion hyn sy'n daladwy pan fydd gweithwyr yn ymddeol yn gynnar yn drefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu a chaiff yr ymrwymiadau eu cydnabod adeg dyfarnu'r buddion. Nid oes asedau i'w cronni er mwyn diwallu'r ymrwymiadau pensiwn hyn.

**Trafodion yn Berthnasol i Fuddion Ôl-Gyflogaeth:**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd cydnabod cost y buddion ymddeol yng nghost y gwasanaeth a adroddir amdano pan fyddant wedi'u hennill gan y gweithwyr yn hytrach na pan fydd y pensiynau yn cael eu talu yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r gost sydd yn dod allan o dreth y cyngor yn seiliedig ar daliadau ariannol yn ystod y flwyddyn, felly mae gwir gost buddion cyflogaeth/ymddeol yn cael eu tynnu allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r

Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd. Mae'r trafodion canlynol wedi eu gwneud yn y Cyfrif o Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd yn ystod y flwyddyn:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2017 £000** | **2015-2016 £000** | **2016-2017 £000** | **2015-2016 £000** | **2016-2017 £000** |
| **Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | | | | | |
| *Cost Gwasanaethau:* | | | | | |
| *Cost am wasanaeth sy'n cynnwys:* | | | | | |
| Cost Gyfredol y Gwasanaeth | -6,418 | -7,938 | -19,800 | -25,580 | -26,218 |
| Cyfraniadau Buddion heb eu Hariannu | 116 | 115 | 0 | 0 | 116 |
| Enillion (-)/Colledion(+) Gorffennol y Gwasanaeth | -126 | -9 | -50 | -20 | -176 |
| Enillion (-)/Colledion (+) o setliadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau i mewn | 0 | 0 | -130 | -310 | -130 |
| Grant ychwanegol Pensiwn yr Heddlu sy'n dderbyniadwy | 0 | 0 | 22,763 | 17,212 | 22,763 |
| *Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi* | | | | | |
| Cost llog net | -1,615 | -2,149 | -46,550 | -48,780 | -48,165 |
| Cyfanswm Buddion Ôl-gyflogaeth wedi eu codi yn erbyn y Gweddill neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau | -8,043 | -9,981 | -43,767 | -57,478 | -51,810 |
| *Buddion Ôl-gyflogaeth Eraill wedi eu codi yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr* | | | | | |
| *Ail-fesur ymrwymiad y budd net diffiniedig yn cynnwys:* | | | | | |
| Adenillion ar asedau cynlluniedig (ac eithrio'r swm a gafodd ei gynnwys yng nghost llog net) | 23,585 | -957 | 0 | 0 | 23,585 |
| Enillion (+) a cholledion (-) actiwarïaid yn deillio o newidiadau i'r tybiaethau demograffig | 764 | 0 | -30,440 | 21,960 | -29,676 |
| Enillion (+) a cholledion (-) actiwarïaid yn deillio o newidiadau i'r tybiaethau ariannol | -29,828 | 23,896 | 305,890 | 130,960 | 276,062 |
| Enillion (+) a cholledion (-) eraill | -6,703 | 1,785 | -1,420 | 49,870 | -8,123 |
| Buddion Eraill Ôl-gyflogaeth wedi eu codi yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr | -20,225 | 14,743 | 230,263 | 145,312 | 210,038 |
| **Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd** | | | | | |
| Gwrthdroi'r costau net a wnaed i'r Gweddill neu Ddiffyg ar gyfer Darpariaeth Buddion Ôl-gyflogaeth yn unol â'r cod | -8,043 | -9,981 | -43,767 | -54,478 | -51,810 |
| *Gwir swm a godwyd yn erbyn balans y Gronfa Gyffredinol am bensiynau yn ystod y flwyddyn:* | | | | | |
| Cyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | 5,540 | 5,522 | | | 5,540 |
| Buddion ymddeol sy'n daladwy i'r pensiynwyr | | | 16,187 | 15,848 | 16,187 |

**Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn sy'n cael eu Cydnabod yn Fantolen.**

Dyma'r swm sy'n cael ei gynnwys yn y fantolen sy'n deillio o ymrwymiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran ei gynlluniau buddion diffiniedig:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2017 £000** | **31 Mawrth 2016 £000** | **31 Mawrth 2017 £000** | **31 Mawrth 2016 £000** |
| Gwerth presennol y buddion diffiniedig | 239,653 | 192,222 | 1,622,080 | 1,320,470 |
| Gwerth teg asedau a gynlluniwyd | -179,237 | -146,491 | 0 | 0 |
| Is gyfanswm | 60,416 | 45,731 | 1,622,080 | 1,320,470 |
| Symudiadau eraill yn yr ymrwymiad (+)/ased (-) (os yn berthnasol) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Rhwymedigaeth Net sy'n deillio o'r ymrwymiad budd diffiniedig** | **60,416** | **45,731** | **1,622,080** | **1,320,470** |

## Cysoni’r Symudiad yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 31 Mawrth 2017 £000 | 31 Mawrth 2016 £000 |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau’r cynllun ar y dechrau | 146,491 | 138,729 |
| Incwm - llog | 5,192 | 4,506 |
| Ail-fesur enillion (+)/colledion (-): | | |
| - adenillion ar asedau cynlluniedig, ac eithrio’r swm a gafodd ei gynnwys yng nghost llog net | 23,585 | -957 |
| - Arall (os yn berthnasol) | 0 | 0 |
| Effaith newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid gwledydd tramor | 0 | 0 |
| Cyfraniad y cyflogwr | 5,540 | 5,522 |
| Cyfraniadau’r gweithwyr i’r cynllun | 1,876 | 1,925 |
| Buddion a dalwyd | -3,447 | -3,234 |
| Arall (os yn berthnasol) | 0 | 0 |
| **Gwerth teg asedau’r cynllun ar y diwedd** | **179,237** | **146,491** |

## Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaeth y Cynllun (Ymrwymiad Budd Diffiniedig)

| | Rhwymedigaethau a Ariennir: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Rhwymedigaethau nas Ariennir: Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2017 £000 | 31 Mawrth 2016 £000 | 31 Mawrth 2017 £000 | 31 Mawrth 2016 £000 |
| Balans agoriadol ar 1 Ebrill | 192,222 | 204,725 | 1,320,470 | 1,481,630 |
| Cost Gyfredol y Gwasanaeth | 6,418 | 7,938 | 19,800 | 25,580 |
| Cost llog | 6,807 | 6,655 | 46,550 | 48,780 |
| Cyfraniadau aelodau’r cynllun | 1,876 | 1,925 | 7,050 | 7,260 |
| Ail-fesur enillion (-)/colledion (+): | | | | |
| - Enillion a cholledion actiwarïaid yn deillio o newidiadau i’r tybiaethau demograffig | -764 | 0 | -30,440 | -21,960 |
| - Enillion a cholledion actiwarïaid yn deillio o newidiadau i’r tybiaethau ariannol | 29,828 | -23,896 | 305,890 | -130,960 |
| - Enillion/colledion eraill | 6,703 | -1,785 | -1,420 | -49,870 |
| Costau’r gwasanaeth yn y gorffennol | 126 | 9 | 50 | 20 |
| Colledion (+)/enillion (-) ar gwtogiadau (ble bo’n berthnasol) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaeth dybiedig ar gyfuniadau o endidau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau i mewn | 0 | 0 | 130 | 310 |
| Buddion a dalwyd | -3,447 | -3,234 | -46,000 | -40,320 |
| Rhwymedigaethau a gafodd eu dileu adeg setlo (ble bo’n berthnasol) | -116 | -115 | 0 | 0 |
| **Balans terfynol ar 31 Mawrth** | **239,653** | **192,222** | **1,622,080** | **1,320,470** |

**Asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:**

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2016-2017 | | | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2015-2016 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prisiau a Ddyfynnwyd ar y Farchnad Agored | Prisiau nas dyfynnwyd ar y farchnad agored | Cyfanswm | Prisiau a Ddyfynnwyd ar y Farchnad Agored | Prisiau nas dyfynnwyd ar y farchnad agored | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod | 6,743 | 0 | **6,743** | 4,512 | 0 | **4,512** |
| **Is gyfanswm** | 6,743 | 0 | **6,743** | 4,512 | 0 | **4,512** |
| Gwarantau Ecwiti: | | | | | | |
| *Yn ôl y math o ddiwydiant:* | | | | | | |
| Defnyddwyr | 6,145 | 0 | **6,145** | 4,659 | 0 | **4,659** |
| Gweithgynhyrchu | 5,550 | 0 | **5,550** | 0 | 0 | **0** |
| Ynni a Gwasanaethau | 998 | 0 | **998** | 803 | 0 | **803** |
| Sefydliadau Ariannol | 3,438 | 0 | **3,438** | 2,388 | 0 | **2,388** |
| Iechyd a Gofal | 8,847 | 0 | **8,847** | 8,446 | 0 | **8,446** |
| Technoleg Gwybodaeth | 7,207 | 0 | **7,207** | 4,848 | 0 | **4,848** |
| Arall | 491 | 0 | **491** | 5,836 | 0 | **5,836** |
| **Is gyfanswm** | 32,676 | 0 | **32,676** | 26,980 | 0 | **26,980** |
| Gwarantau Dyled: | | | | | | |
| Bondiau Corfforaethol (graddfa buddsoddi) | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Bondiau Corfforaethol (graddfa di-fuddsoddi) | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Llywodraeth y DU | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Arall | 0 | 22,391 | **22,391** | 0 | 19,578 | **19,578** |
| **Is gyfanswm** | 0 | 22,391 | **22,391** | 0 | 19,578 | **19,578** |
| Eiddo: | | | | | | |
| *Yn ôl math:* | | | | | | |
| Eiddo yn y DU | 3,938 | 9,787 | **13,725** | 2,795 | 12,334 | **15,129** |
| Eiddo Tramor | 0 | 364 | **364** | 0 | 277 | **277** |
| **Is gyfanswm** | 3,938 | 10,151 | **14,089** | 2,795 | 12,611 | **15,406** |
| Deilliadau: | | | | | | |
| Chwyddiant | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| **Is gyfanswm** | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Ecwiti Preifat: | | | | | | |
| DU a thramor | 0 | 8,097 | **8,097** | 0 | 5,952 | **5,952** |
| **Is gyfanswm** | 0 | 8,097 | **8,097** | 0 | 5,952 | **5,952** |
| Cronfeydd Buddsoddi ac ymddiriedolaethau unigol eraill: | | | | | | |
| Ecwiti | 38,310 | 54,528 | **92,838** | 29,735 | 43,109 | **72,844** |
| Bondiau | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Isadeiledd | 0 | 2,403 | **2,403** | 0 | 1,219 | **1,219** |
| **Is gyfanswm** | 38,310 | 56,931 | **95,241** | 29,735 | 44,328 | **74,063** |
| **Cyfanswm** | **81,667** | **97,570** | **179,237** | **64,022** | **82,469** | **146,491** |

**Sail ar gyfer amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau**

Cafodd yr ymrwymiadau eu hasesu ar sail actiwarïaid gan ddefnyddio dull rhagamcanu unedau credyd; mae'n rhoi amcangyfrif o'r pensiynau fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, lefelau cyflogau ac ati.

Mae ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi cael eu hasesu gan Hymans Robertson ac mae ymrwymiadau Cynllun Pensiwn yr Heddlu wedi cael eu hamcangyfrif gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r ddau yn sefydliadau actiwari annibynnol. Roedd amcangyfrifon Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar brisiad llawn ddiweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2013.

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau budd diffiniedig yn sensitif i'r tybiaethau actiwarïaidd sydd wedi'u cynnwys yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiad hydeimledd isod yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol bod y tybiaethau'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod riportio a rhagdybir ar gyfer pob newid bod y dybiaeth yn dadansoddi newidiadau tra bod yr holl dybiaethau eraill yn parhau i fod yn gyson. Er enghraifft, mae'r tybiaethau hirhoedledd yn tybio y bydd disgwyliad oes dynion a merched yn cynyddu neu'n gostwng. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall y newidiadau yn rhai o'r tybiaethau fod yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r dadansoddiadau hydeimledd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun h.y. ar sail actiwarïaidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu uned credyd. Ni wnaeth y dulliau a'r math o dybiaethau a ddefnyddiwyd i baratoi'r dadansoddiad hydeimledd isod newid o'r rhai hynny a ddefnyddiwyd yn y cyfnod riportio blaenorol.

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| **2016-2017** | **Cynnydd yn y tybiaethau £000** | **Gostyngiad yn y tybiaethau £000** | **Cynnydd yn y tybiaethau £000** | **Gostyngiad yn y tybiaethau £000** |
| Hirhoedledd (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) mewn 1 blwyddyn) | 9,595 | -9,595 | 37,900 | -37,900 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%) | 22,002 | -22,002 | 130,900 | -130,900 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%) | 7,089 | -7,089 | 13,900 | -13,900 |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%) | 22,002 | -22,002 | 130,900 | -130,900 |
| Cyfradd rhwymedigaethau cynlluniau disgownt (cynnydd (-) neu ostyngiad (+) o 0.5%) | -29,675 | 29,675 | -156,900 | 156,900 |

**Strategaeth Cydweddu Asedau ac Ymrwymiadau**

Nid oes gan Bwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd Strategaeth Cydweddu Asedau ac Ymrwymiadau. Cyfrifoldeb y pwyllgor pensiynau yw strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae rhaglen rheoli risg gyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy marchnadoedd arian ac mae'n ceisio lleihau potensial effeithiau andwyol ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu pensiynau. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cynhyrchu Datganiad Strategaeth Ariannu ar y cyd ag Actiwarïaid y Gronfa, sy'n nodi sut bydd ansolfedd a risg yn cael ei reoli o safbwynt ymrwymiadau. Cafodd y Strategaeth ei adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn y prisiad actiwarïaid yn 2016 ac mae wedi cymryd golwg cyffredinol ar lefel y risg sy'n gynhenid yn y polisi buddsoddiadau a nodwyd yn y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi a gyhoeddwyd dan Reoliad 12 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddiadau Arian) 2016, (y rheoliadau buddsoddi) a'r polisi ariannu sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad. Mae'r dogfennau hyn yn parhau i gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y proffil risg cyffredinol yn parhau i fod yn berthnasol.

**Effaith ar Lif Arian y Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

Nod y cynllun yw cadw cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfradd mor gyson â phosibl. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i ariannu 100% o'r cynllun dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r lefelau ariannu'n cael eu monitro'n flynyddol. Dylai'r prisiad teirblwydd nesaf gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2019.

Bydd angen i'r cynllun gymryd y newidiadau cenedlaethol sy'n deillio o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 i ystyriaeth. Dan y Ddeddf, ni all Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr na chynlluniau gwasanaethau cyhoeddus eraill gynnwys buddion mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 ar gyfer prif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr). Mae'r Ddeddf yn caniatáu i reoliadau'r cynllun gael eu pennu o fewn fframwaith cyffredin, er mwyn sefydlu cynlluniau enillion cyfartalog ar gyfer talu pensiynau a buddion eraill i rai gweithwyr yn y sector cyhoeddus.

Rhagwelodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y byddai'n talu gwerth £5,515,000 o gyfraniadau i'r cynllun yn 2016-2017.

Amcangyfrifir y bydd rhaid ar gyfartaledd talu ymrwymiadau budd diffiniedig i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol am 22.2 mlynedd, 2016-2017, (22.7 mlynedd 2015-2016). Y cyfartaledd ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Heddlu yw 21.0 mlynedd, 2016-17, (22.0 mlynedd 2015-16).

18. **Lwfansau'r Aelodau**

Mae costau'r Cydbwyllgor Archwilio wedi'u rhannu'n deg rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r tabl isod yn cynrychioli cyfanswm y gost am y flwyddyn.

| | **2016-2017** | | **2015-2016** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **Nifer yr Aelodau** | **£000** | **Nifer yr Aelodau** |
| Lwfansau | 11 | 5 | 8 | 5 |
| Treuliau | 1 | | 1 | |
| | **12** | | **9** | |

Ceir rhagor o fanylion am lwfansau'r aelodau yn www.northwales-pcc.gov.uk

19. **Offerynnau Ariannol gan gynnwys Natur a Maint y Risg sy'n Deillio ohonynt**

Mae'r gwobrau a'r risgiau ariannol yn cael eu cario gan y Grŵp ac mae'r nodiadau cyfrifo a'r datgeliadau cefnogol yn cael eu dal o fewn Cyfrifon y Grŵp/CHTh.

20. **Cynlluniau Partneriaeth**

Mae'r Grŵp yn gysylltiedig â gwaith partneriaeth gyda DangerPoint Ltd ac Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT). Mae manylion cyfrifon PACT a DangerPoint ar gael os bydd hangen.

21. **Gweithrediadau/cydweithio a reolir ar y cyd**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn barti i nifer o drefniadau cydweithio (yn rhanbarthol ac yn genedlaethol). Ym mhob achos mae'r cyfrifon Grŵp yn adlewyrchu eu siâr o incwm, gwariant a llif arian parod yn deillio o strwythur y trefniadau. Gan mai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd dderbyniodd yr holl incwm a nawdd, bydd unrhyw incwm a geir o strwythur y trefniadau'n cael ei gredydu yn Natganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gan fod Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr y Prif Gwnstabl yn cynnwys gwariant yn deillio o'r trefniadau cydweithio hyn, bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn credydu'r Prif Gwnstabl gyda swm cyfwerth drwy drefniadau ariannu rhwng grwpiau.

Mae arweiniad CIPFA ar gyfrifyddu ar gyfer trefniadau cydweithio wedi'i ystyried wrth bennu natur y berthynas a, gan fod cyd reolaeth o'r rhan fwyaf o drefniadau drwy fwrdd rheoli strategol, ystyrir fod y rhan fwyaf wedi'u

dosbarthu'n gywir fel gweithrediadau ar y cyd. Mae rhai trefniadau o natur gydweithredol ond maent yn cael eu dosbarthu fel taliadau trydydd parti. Mae eraill yn ymwneud â swyddogion o heddluoedd unigol yn cyflawni dyletswyddau ar sail ranbarthol ond yn cael eu noddi gan heddlu arweiniol o grantiau a gafwyd gan y Swyddfa Gartref, asiantaethau eraill neu'n talu amdanynt eu hunain drwy ffioedd ayyb

Mae'r canlynol yn rhannu'r trefniadau yn:

Cydweithio – Cydweithrediadau
Cydweithio – Taliadau trydydd parti
Cydweithio – Grant/hunan ariannu

**Cydweithio - Cydweithrediadau**
Sefydlwyd Titan ym mis Ebrill 2009 gan ddod a'r chwe heddlu rhanbarthol at ei gilydd er mwyn taclo troseddau difrifol a threfnedig yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Mae'n cwmpasu gwaith nifer o dimau a Heddlu Glannau Mersi sy'n arwain. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu ein siâr ni o incwm a gwariant yr amrywiol drefniadau fel a ganlyn:

| **2015-2016** | | **2016-2017** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net £000** | | **Gwariant £000** | **Incwm £000** | **Gwariant Net £000** |
| 292 | Uned Troseddau Rhanbarthol | 222 | 0 | 222 |
| 46 | Cudd-wybodaeth carcharorion | 68 | -23 | 45 |
| 26 | Uned Cudd-wybodaeth Ranbarthol | 30 | -21 | 9 |
| 99 | Uned Gwyliadwriaeth Dechnegol | 180 | -16 | 164 |
| 61 | Gwasanaeth Pobl a Ddiogelir | 96 | 0 | 96 |
| 197 | Uned Gyfrinachol | 179 | -17 | 162 |
| 0 | Tîm Adfer Asedau Rhanbarthol | 53 | -53 | 0 |
| 5 | Swyddog Diogelwch Gweithredol | 13 | -7 | 6 |
| 0 | Troseddau Seiber | 29 | -29 | 0 |
| 0 | GAIN | 4 | -4 | 0 |
| 53 | Gwasanaethau Fforensig Cudd | 107 | 0 | 107 |
| 0 | Grantiau TITAN eraill | 72 | -28 | 44 |
| **779** | **Cyfanswm** | **1,053** | **-198** | **855** |

Swydd Gaer sy'n arwain ar y cydweithrediadau canlynol:

| **2015-2016** | | **2016-2017** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net £000** | | **Gwariant £000** | **Incwm £000** | **Gwariant Net £000** |
| 4 | Uned Chwilio Danddwr ar y Cyd | 99 | -31 | 68 |
| 16 | Drylliau Tanio Rhanbarthol | 21 | 0 | 21 |
| 0 | Cynghrair Plismona Arfog | 2,954 | -82 | 2,872 |
| 0 | Cynghrair Cŵn | 625 | -1 | 624 |
| 7 | Rhaglen Galluoedd Arbenigol Rhanbarthol | 0 | 0 | 0 |
| 9 | ANPR | 14 | 0 | 14 |
| **36** | **Cyfanswm** | **3,713** | **-114** | **3,599** |

Cychwynnodd y Gynghrair Cŵn yn 2016-2017, ac nid oes ffigyrau cymharol ar gyfer 2015-2016.

Mae'r isod yn cael eu cyflawni mewn cydweithrediad â heddluoedd eraill Cymru. Mae cyfran dybiannol y gwariant a'r incwm wedi cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn ôl canran y boblogaeth ar draws Cymru.

| **CYFRAN CYDWEITHREDIADAU 2016-2017** | | **Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth** | **Ymgynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol** |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **% Poblogaeth** | **£000** | **£000** |
| Dyfed-Powys | 16.65% | 1,081 | 81 |
| Gwent | 18.77% | 1,219 | 91 |
| Gogledd Cymru | 22.41% | 1,455 | 109 |
| De Cymru | 42.17% | 2,737 | 205 |
| **Cyfanswm:** | **100.00%** | **6,492** | **486** |

| **Cyfanswm Incwm a Grantiau** | **% Poblogaeth** | **£000** | **£000** |
|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 16.65% | -1,081 | -81 |
| Gwent | 18.77% | -1,219 | -91 |
| Gogledd Cymru | 22.41% | -1,455 | -109 |
| De Cymru | 42.17% | -2,737 | -205 |
| **Cyfanswm:** | **100.00%** | **-6,492** | **-486** |

| **CYFRAN CYDWEITHREDIADAU 2015-2016** | | **Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth** | **Ymgynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol** |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **% Poblogaeth** | **£000** | **£000** |
| Dyfed-Powys | 16.71% | 950 | 74 |
| Gwent | 18.77% | 1,067 | 83 |
| Gogledd Cymru | 22.45% | 1,276 | 99 |
| De Cymru | 42.07% | 2,390 | 184 |
| **Cyfanswm:** | **100.00%** | **5,683** | **440** |
| **Cyfanswm Incwm a Grantiau** | **% Poblogaeth** | **£000** | **£000** |
| Dyfed-Powys | 16.71% | -950 | -74 |
| Gwent | 18.77% | -1,067 | -83 |
| Gogledd Cymru | 22.45% | -1,276 | -99 |
| De Cymru | 42.07% | -2,390 | -184 |
| **Cyfanswm:** | **100.00%** | **-5,683** | **-440** |

Mae dyledwyr a chredydwyr perthnasol i'r trefniadau uchod wedi aros ym malansau'r heddluoedd arweiniol drwy gyd gytundeb ar sail materoldeb.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Glannau Mersi yn darparu eiddo ar gyfer yr Uned Troseddau Rhanbarthol, yr Uned Cudd-wybodaeth Rhanbarthol a'r Tîm Adfer Asedau Rhanbarthol. Cafodd yr ased hwn ei ariannu'n gyfan gwbl drwy grant cyfalaf a gafwyd gan Y Swyddfa Gartref ac mae wedi'i gynnwys ar fantolen Comisiynydd Heddlu a Throsedd Glannau Mersi. Pe bai'r trefniadau rhanbarthol yn cael eu terfynu ar unrhyw adeg yna fe allai'r Swyddfa Gartref adennill y grant a gafwyd i ariannu'r adeilad. Pe na bai'r opsiwn hwn yn cael ei weithredu, yna byddai elw'r gwerthiant yn cael ei rannu rhwng yr heddluoedd sy'n cymryd rhan (Heddlu Swydd Gaer, Heddlu Manceinion, Heddlu Glannau Mersi, Heddlu Swydd Gaerhirfryn, Heddlu Cumbria a Heddlu Gogledd Cymru).

**Cydweithio – Taliadau Trydydd Parti**
Yr unig drefniant arwyddocaol o’r rhain yw’r taliad a wnaed tuag at y Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol (NPAS) a oedd yn £1.038 miliwn yn 2016-2017 (£1.394 miliwn yn 2015-2016).

**Cydweithio – Grant/Hunan ariannu**
Mewn nifer fechan o drefniadau cydweithio darparodd Heddlu Gogledd Cymru swyddogion ar secondiad i gefnogi’r trefniadau a chafodd ei ad-dalu’n llawn gan heddluoedd neu asiantaethau eraill a dderbyniodd grant nawdd gan Y Swyddfa Gartref neu Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant.

**Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu**

Ers 2006-2007 mae pensiynau Swyddogion Heddlu yn cael eu talu allan o gyfrif gwahanol i'r prif gyfrif refeniw. Mae cyfraniadau'r cyflogwr a'r gweithwyr ac unrhyw incwm arall yn cael eu talu i mewn i'r Cyfrif Cronfa Bensiwn ac mae'r holl wariant yn cael ei dalu allan o'r cyfrif. Mae Cynllun Pensiwn yr Heddlu yn gynllun heb ei ariannu ac felly heb asedau wedi eu buddsoddi. Yn ôl y ddeddfwriaeth mae'n ofynnol i bob heddlu weithredu Cronfa Bensiwn ac y mae'r swm sydd yn cael ei dalu i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn wedi ei bennu gan reoliad. Mae Rheoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007 yn nodi bod rhaid i unrhyw ddiffyg ar y cyfrif ar ddiwedd y flwyddyn gael ei drosglwyddo i brif gyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn i'r cyfrif fod yn ddim ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff cyfrif y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei ad-dalu am y swm yma gan y Swyddfa Gartref. Yn debyg mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ad-dalu unrhyw ddeilliant dros ben o'r gwariant i'r Swyddfa Gartref. Mae lefel cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganrannau tâl pensiynadwy a osodwyd yn genedlaethol gan y Swyddfa Gartref a chânt eu hadolygu bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae manylion yr ymrwymiadau pensiwn hirdymor i'w gweld yn nodyn 17 Buddion Ymddeol.
Mae'r Cyfrif Pensiwn yma wedi ei gynllunio i dalu pensiynau fel y maent yn dod yn daladwy ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth atebolrwydd am daliadau ar ôl diwedd y cyfnod riportio. Mae'r trosglwyddiadau o fewn y cyfrif yn cael eu trin yn unol â Pholisïau Cyfrifyddu'r Prif Gwnstabl fel y dangosir ar dudalennau 10 i 25. Caiff y Gronfa Bensiynau ei gweinyddu drwy gytundeb contract trydydd parti.

| 2015-2016 £000 | Cyfrif y Gronfa | 2016-2017 £000 |
|---|---|---|
| | **Cyfraniadau a dderbynnir** | |
| | Gan y Cyflogwr: | |
| 12,774 | - Arferol | 12,457 |
| 0 | - Ymddeoliad cynnar | 0 |
| 825 | - Cyfraniad Cyfalaf tuag at Ymddeoliadau ar sail Salwch | 899 |
| 7,267 | Cyfraniadau Aelodau | 7,046 |
| 348 | Trosglwyddiadau i mewn | 192 |
| **21,214** | **Cyfanswm incwm** | **20,594** |
| | **Buddion Taladwy** | |
| 30,981 | Pensiynau | 32,277 |
| 7,401 | Buddion ymddeol cymudol a lwmp swm | 11,052 |
| 0 | Taliadau Lwmp Swm ar adeg marwolaeth | 20 |
| | **Taliadau i ac ar ran rhai sy'n gadael y cynllun** | |
| 35 | Trosglwyddiadau allan o'r cynllun i gynlluniau eraill | 0 |
| 8 | Ad-dalu cyfraniadau | 8 |
| **38,425** | **Cyfanswm Taliadau** | **43,357** |
| 17,212 | Swm net yn daladwy am y flwyddyn cyn trosglwyddiad o Gronfa'r Heddlu | 22,763 |
| -17,212 | Cyfraniad ychwanegol gan Gronfa'r Heddlu | -22,763 |
| **0** | **Swm net yn daladwy/dderbyniadwy ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** |
| | **Datganiad Asedau Net:** | |
| 339 | Cyfraniadau yn ddyledus gan y cyflogwr | 120 |
| -222 | Buddion heb eu talu | 37 |
| -117 | Asedau neu rwymedigaethau cyfredol eraill (heblaw am rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol) | -157 |
| **0** | **Cyfanswm y Rhwymedigaethau** | **0** |

1. Mae cyfraniad ychwanegol Y Swyddfa gartref yn seiliedig ar 21.3% o gyfraniad y cyflogwr yn unol â phrisiad yr actiwari. Mae'r cyfrifon uchod yn seiliedig ar gyfraniad y cyflogwr o 24.2% yn unol â'r rheoliadau pensiwn.

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016-2017**

## 1.0 CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl drefniadau llywodraethu ar y cyd. Am y rheswm hwnnw felly mae llawer o'r rheolaethau'n gyffredin i'r ddwy gorfforaeth undyn.

1.2 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gynllun Dirprwyo a sefydlwyd ar y 1 Ebrill 2014. Nod y Cynllun hwn yw sicrhau bod trefniadau cywir wedi'u sefydlu ar gyfer rheoli gweithgareddau ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl. Mae ar y Comisiynydd ddyletswydd statudol a mandad etholiadol i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon ac i ddal Heddlu Gogledd Cymru yn atebol ar ran y cyhoedd. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd. Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am gyfarwyddyd a rheolaeth amhleidiol pob swyddog heddlu ac aelod o staff o fewn yr heddlu y mae'n ei arwain ac mae'n gyfrifol am gynnal Heddwch y Frenhines. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal swydd dan y Goron, ond fe'i penodir gan y Comisiynydd. Roedd y Cynllun hwn ar waith drwy gydol y flwyddyn ariannol ac mae wedi'i gymeradwyo gan yr holl Uwch Swyddogion a enwir yn y Cynllun, yn ogystal â'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

1.3 Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod â Phrif Swyddog Cyllid i ymgymryd â chyfrifoldebau statudol adran 151. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi sefydlu Cyd Bwyllgor Archwilio; pwrpas y Pwyllgor yw darparu cyngor annibynnol a gwneud argymhellion i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl parthed digonoldeb y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol ac adroddiadau ariannol.

1.4 Mae llywodraethu yn ymwneud â sut y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysfawr, agored ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n rheoli'r sefydliad a hefyd y gweithgareddau hynny y bydd y sefydliad yn ymgymryd â nhw er mwyn ymgysylltu â, a chael ei ddal yn atebol gan, y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) hwn ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn disgrifio sut y gall y sefydliad ddangos ei fod wedi cyflawni ei ddwy ddyletswydd statudol gyffredinol yn ystod 2016-2017:

- i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon
- i fod yn atebol am y modd y maen nhw a'r rhai hynny sydd dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth yn arfer eu swyddogaethau

## 2.0 PWRPAS A CHWMPAS Y CYFRIFOLDEB DROS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

2.1 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y cedwir cyfrif cywir ohono ac y caiff ei ddefnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae arnynt ddyletswydd hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd y caiff eu swyddogaethau eu harfer.

2.2 Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau cyffredinol, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu eu busnes ac i'w cynorthwyo i arfer eu swyddogaethau, sy'n cynnwys sicrhau bod system reoli fewnol gadarn yn cael ei chynnal trwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau yn eu lle i reoli risg. Mae'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu CIPFA fel y'i hamlinellir yn ei gyhoeddiad "Statement on the Role of the Chief Financial Officer of the Police and Crime Commissioner and Chief Finance Officer of the Chief Constable" a chyhoeddiad y Swyddfa Gartref "Financial Management Code of Practice for the Police Service of England and Wales 2013".

2.3 Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion y Fframwaith CIPFA/SOLACE: *Delivering Good Governance in Local Government* a ddiweddarwyd yn 2016 ac sydd hefyd yn diwallu gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i newidiwyd, mewn perthynas â datganiad o reolaeth fewnol â chyhoeddiad y datganiad llywodraethu blynyddol.

2.4 Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a'u gweithgareddau ar gyfer bod yn atebol i, ymgysylltu â, ac arwain eu cymunedau. Mae'r fframwaith yn galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl i gadw llygad ar gyflawniad eu hamcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol ac a ydynt yn darparu gwerth am arian.

2.5 Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith, ac fe'i dyluniwyd i reoli risg hyd at lefel resymol a rhagweladwy. Ni all atal yn gyfan gwbl y risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, nid diamod, o effeithiolrwydd. Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i dylunio i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau o safbwynt cyflawniad nodau ac amcanion y sefydliad ac i werthuso pa mor debygol yw hi y bydd y risgiau hynny'n troi'n realiti a beth fyddai eu heffeithiau, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd.

2.6 Roedd y fframwaith llywodraethu yn ei le drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 a hyd at gymeradwyaeth y Datganiad o Gyfrifon.

## 3.0 EGWYDDORION LLYWODRAETHU DA

Mae'r Fframwaith CIPFA/SOLACE: D*elivering Good Governance in Local Government* yn gosod saith egwyddor o lywodraethu da sy'n gweithredu fel sylfaen i drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau bod y deilliannau a fwriadwyd ar gyfer randdeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni.

Nodir trefniadau sy'n benodol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn y saith pwynt isod:

### 3.1 Moeseg a Gonestrwydd

Mae prosesau corfforaethol mewn lle i gefnogi egwyddorion craidd moeseg a gonestrwydd megis protocol Plismona 2011 sy'n gofyn i bawb gydymffurfio â'r saith egwyddor o fywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan). Yn ogystal, mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl sicrhau bod llywodraethu da wedi'i fewnosod o fewn y sefydliadau ac mae Cod Moeseg y Coleg Plismona yn gosod y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan bawb sy'n gweithio ym maes plismona.

Cod ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Chod Moeseg y Prif Gwnstabl sydd mewn lle sy'n gosod sylfaen i'r safonau disgwyliedig o ran ymddygiad. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl bolisïau a gweithdrefnau a rheoliadau mewn lle sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac yn cyd-fynd â'r safonau moeseg priodol a'r safonau ymddygiad proffesiynol. Mae ystyriaethau moesol yn rhan o unrhyw benderfyniadau busnes a wneir ac fe'u gosodir o fewn polisïau gweithredol o fewn y ddau sefydliad.

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl bolisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth a threfniadau chwythu'r chwiban mewn lle sy'n rheoli risg twyll a llygredigaeth yn effeithiol. Mae prosesau ar gyfer datgan diddordeb a chofrestr derbyn rhoddion a lletygarwch yn cael eu cadw a'u diweddaru yn ôl y galw.
Mae'r Cydbwyllgor Archwilio a'r Panel Heddlu a Throsedd wedi cwblhau'r holl swyddogaethau'n llawn fel y nodir yn y cyhoeddiad CIPFA perthnasol ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

### 3.2 Didwylledd ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw ar draws y sefydliad i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion pobl. Mae holl bapurau a chofnodion cyfarfodydd

cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ynghyd ag unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn atebol i drigolion Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaeth heddlu sy’n effeithlon ac yn effeithiol iddynt ac mae’r Prif Gwnstabl yn atebol i’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i sicrhau bod gwasanaeth heddlu effeithiol yn cael ei ddarparu i drigolion Gogledd Cymru.

Mae’r Comisiynydd Heddlu a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â gwaith a chyflawniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn rheolaidd ynghyd â bodlonrwydd defnyddwyr, gan gynnwys cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd ac Adroddiad Blynyddol.

Mae strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu mewn lle i sicrhau bod ein gwasanaethau’n ymatebol i faterion sy’n cael eu codi. Rydym yn cynnal arolygon yn rheolaidd i fwydo gwybodaeth i ddarpariaeth ein gwasanaeth ac i gynorthwyo i ddatblygu ein blaenoriaethau a'n hamcanion. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl brosesau ymgynghori mewnol ac allanol mewn lle a ddefnyddir i fwydo gwybodaeth ac i wella gwasanaethau.

Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn gweithio mewn partneriaeth ac mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill er mwyn cyflawni amcanion cytûn ac i sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu darparu’n effeithiol ac yn bodloni gofynion y sefydliadau. Mae partneriaethau a threfniadau cydweithio sydd mewn lle yn cael eu monitro a’u hadolygu i sicrhau bod perfformiad yn cael ei gyflawni a bod amcanion yn cael eu bodloni.

Mae gennym swyddogaeth craffu, wedi’i gefnogi gan dystiolaeth a dadansoddiad data, i herio’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau mewn modd adeiladol, gan gynnwys y rhai hynny sy’n gweithio mewn partneriaeth â’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl. Mae pob penderfyniad allweddol a gymerir yn cynnwys asesiad effaith ariannol, effaith cyfreithiol, effaith cydraddoldeb ac asesiad risg.

Prif Weithredwr i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd sy’n dal rôl y Swyddog Monitro ac mae trefniadau i gofnodi unrhyw gyngor proffesiynol angenrheidiol ar gyfer meysydd arbenigol.

Mae gan y Prif Gwnstabl drefniadau mewn lle i gofnodi unrhyw gyngor proffesiynol angenrheidiol ar gyfer meysydd arbenigol.

Yn ogystal, mae’r Prif Swyddogion Ariannol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â datganiad CIPFA, sef ‘the Role of the Chief Financial Officer of the Police and Crime Commissioner and of the Chief Constable’.

### 3.3 Diffinio Deilliannau

Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl, fel rhan o’r broses cynllunio strategol, yn datblygu strategaethau a chynlluniau sy’n canolbwyntio ar ddeilliannau, sy’n gynaliadwy ac yn ystyried lefel yr adnoddau angenrheidiol i’w darparu mewn modd priodol.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gosod amcanion yr heddlu a throsedd ac mae’r rhain yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throsedd sy'n cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi'n flynyddol. Mae ein Cynllun Heddlu a Throsedd wedi cael ei gyfathrebu i’r cyhoedd trwy’r wefan a thrwy nifer o weithgareddau ymgysylltu ac mae crynodeb fer wedi’i gynnwyd yn y daflen treth cyngor a anfonwyd i bob cartref, naill ai ar ffurf electroneg neu drwy'r post.

Datblygwyd amcanion yr heddlu a throsedd, blaenoriaethau ac opsiynau ariannol o weledigaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a dadansoddiad ar y cyd o’r canlynol:

- Asesiad o’r drosedd a’r lefel gwasanaeth sy’n ofynnol
- Ymgynghoriad gyda phobl leol

- Ymgynghoriad gyda phartneriaid
- Ymgynghoriad rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl
- Canfyddiadau archwiliad allanol ac adolygiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru a HMIC
- Asesiad risg

Caiff amcanion heddlu a throsedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd eu cyfeirio a'u darparu gan y Prif Gwnstabl, ac yn ei dro, gan y Bwrdd Cynllunio Strategol yn ystod y flwyddyn. Caiff ein perfformiad ei fonitro a'i riportio o fewn yr Adroddiad Blynyddol, y Datganiad o Gyfrifon a'r cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Y Bwrdd Gweithredol Strategol yw'r fforwm ar gyfer craffu ar y Prif Gwnstabl gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae swyddogaethau ychwanegol y Bwrdd yn cynnwys:

- gwneud penderfyniadau fel bo'r angen gan y Cynllun Llywodraethu, i'w cymryd ar y cyd gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl; a
- datblygu cynigion ar gyfer cyflawni amcanion heddlu a throsedd y Comisiynydd fel y nodir yn y Cynllun

Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Cynllunio Strategol yn craffu ar berfformiad gweithredol ac ariannol, darpariaeth gwasanaeth a chyflawniad o'r amcanion heddlu a throsedd. Mae rhaglen ar gyfer cyflawni cynlluniau mewn lle trwy'r Bwrdd Cynllunio Strategol.

3.4 **Pennu ymyriadau**

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd yn y modd gorau posibl, bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle i ddarparu gwasanaethau sy'n dangos effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Cynhelir cynlluniau adnoddau manwl yn flynyddol ac maent yn cael eu cyhoeddi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r risg hwn yn asesu'r gofyn am adnoddau'n seiliedig ar dybiaethau priodol i alluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i flaenoriaethu galw am wasanaethau.

Mae'r gylchred cynllunio strategol a gweithredol blynyddol yn rhoi ystyriaeth i'r lefel ddisgwyliedig o adnoddau sy'n ofynnol ac yn nodi lle bo angen arbedion a gostyngiadau. Caiff y rhaid eu hasesu o ran risg ac mae cyflawniad pob cynllun a ffrwd gwaith yn cael ei fonitro trwy'r Bwrdd Cynllunio Strategol sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl.

Mae byrddau prosiect mewn lle sy'n monitro gweithrediad a chyflawniad unrhyw fentrau neu gynlluniau a gytunir. Sefydlwyd y rhain i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cadarn er mwyn cyflawni'r deilliannau gofynnol. Mae'r broses o wneud penderfyniadau wedi'i ddatganoli er mwyn galluogi gweithrediad hyblyg ac ymatebol a gwell deilliannau. Mae atebolrwydd yn cael ei fesur yn ôl y strwythur llywodraethu a'r prosesau sydd mewn lle.

3.5 **Datblygu Arweinyddiaeth**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl strwythurau a rolau penodol o fewn y sefydliadau i alluogi arweinyddiaeth effeithiol. Caiff hyn ei gefnogi gan y Canllaw Llywodraethu sy'n amlinellu'r rolau a'r cyfrifoldebau ac sy'n hanfodol er mwyn galluogi'r strategaethau a'r cynlluniau sydd mewn lle i gael eu gweithredu.

Mae'r trefniadau llywodraethu wedi cael eu datblygu'n unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Gorchymyn Protocol Plismona 2012 statudol, Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref (FMCP) a chanllawiau presennol yn ymwneud â materion ariannol a llywodraethu sy'n parhau i fod ar waith.

Mae cynllun caniatâd cytun mewn lle sy'n ffurfioli dyletswyddau a dirprwyo rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r strwythur llywodraethu yn cefnogi gweithrediad gweithgareddau a deilliannau a gynllunnir, ac mae strwythur cyfarfodydd mewn lle er mwyn sicrhau bod y deilliannau a gynllunnir yn cael eu cyflawni'n brydlon.

Ein pobl yw ein buddsoddiad mwyaf ac rydym yn sicrhau bod rhaglenni hyfforddi a datblygu aelodau a swyddogion ar gael er mwyn cadw gwybodaeth yn gyfredol, gan gynnwys unrhyw ofynion datblygiad proffesiynol. Mae ein prosesau recriwtio a chynllunio olyniaeth yn sicrhau ein bod yn penodi'r bobl iawn gyda'r sgiliau iawn i rolau o fewn y sefydliad.

Mae telerau ac amodau cenedlaethol yn bodoli ar gyfer swyddogion a staff gyda graddfeydd cyflog a system gwerthuso swyddi wedi'u cytuno, ac mae gennym fframwaith rheoli perfformiad y mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ei ddefnyddio er mwyn asesu perfformiad a mynd i'r afael ag unrhyw welliannau angenrheidiol. Yn ogystal, ceir asesiadau blynyddol o effeithlonrwydd ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd a'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

3.6 **Rheoli risg a monitro perfformiad**

Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhan hanfodol o'r system rheoli perfformiad yn y ddau sefydliad. Mae'r broses rheoli risg yn gosod sylfaen i'r trefniadau rheolaeth ariannol a'r prosesau llywodraethu ac yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r deilliannau a fwriedir ac yn cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru mwy diogel.

Mae diwylliant rheoli risg wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad ar bob lefel. Mae cofrestrau risg corfforaethol ac ar gyfer meysydd unigol sy'n cydymffurfio â methodoleg genedlaethol gymeradwy ac sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd a'u riportio'n ôl yn eu cylch i bwyllgorau a byrddau ar draws y sefydliad. Mae rheoli risg yn eitem reolaidd ar yr agenda ar bob bwrdd ar draws y sefydliad.

Mae ein cynlluniau, ein prosesau a'n polisïau yn cael eu llunio gan dalu'r sylw dyledus i'r risgiau a ddaw i'r amlwg. Mae fframwaith partneriaeth mewn lle i sicrhau bod unrhyw bartneriaethau'n cael eu rheoli'n briodol gan gynnwys rheoli risg.

Mae risgiau strategol a'r broses rheoli risg yn cael eu goruchwylio a'u monitro gan y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n gallu adolygu pob risg er mwyn sicrhau tryloywder.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio mewnol yn asesu digonoldeb ein rheoliadau mewnol ac yn adrodd yn llawn i'r Cyd-bwyllgor Archwilio annibynnol. Archwiliodd ac adroddodd archwilwyr mewnol ac allanol ar gydymffurfiad â rheoliadau a rheolaethau mewnol perthnasol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Cynllunio Strategol yn craffu ar berfformiad gweithredol ac ariannol, darpariaeth gwasanaeth a chyflawniad o'r amcanion heddlu a throsedd. Mae rhaglen ar gyfer cyflawni cynlluniau mewn lle trwy'r Bwrdd Cynllunio Strategol.

Mae holl bapurau a chofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio a Phanel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gael ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae trefniadau effeithiol mewn lle i sicrhau bod data'n cael ei ddiogelu ac yn cael ei gasglu, ei ddefnyddio, ei storio a'i rannu mewn modd priodol. Mae'r holl ddata yn cydymffurfio â pholisïau cadw a gytunwyd ac mae'r cynllun dosbarthiad diogelwch ar waith trwy gydol yr heddlu. Mae Bwrdd Diogelwch Gwybodaeth mewn lle i fonitro trefniadau ac effeithiolrwydd.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bolisïau diogelu data a diogelu gwybodaeth mewn lle sy'n cael eu profi'n rheolaidd. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi adolygu ein diogelwch data a'n trefniadau rheoli gwybodaeth yn dilyn yr adolygiad AHEM diweddar.

Mae protocolau rhannu gwybodaeth mewn lle rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a hefyd gyda'n partneriaid.

3.7 **Arddangos atebolrwydd effeithiol**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn atebol iddyn nhw trwy'r prosesau sydd mewn lle yn y ddau sefydliad.

Defnyddir templedi riportio safonol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei gofnodi mewn modd digonol ac i alluogi gwneud penderfyniadau effeithiol, ac mae adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi sy'n asesu perfformiad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae gwefannau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd ac i randdeiliaid. Mae'r Comisiynydd wedi derbyn y marc ansawdd tryloywder gan sefydliad 'Comparing Police and Crime Commissioners (CoPacc)' i gydnabod lefel ac ehangder yr wybodaeth sy'n cael ei gynnwys ar y wefan.

Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn adrodd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ac mae ganddo fynediad uniongyrchol ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Prif Gwnstabl a'r aelodau. Mae argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu gweithredu ac yn cael eu hadrodd i'r pwyllgor.

Cynhelir adolygiadau ac archwiliadau annibynnol ac allanol yn rheolaidd gan gyrff rheoleiddio ac mae'r adroddiadau'n cael eu cyhoeddi, ac unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu gweithredu.

## 4.0 ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

4.1 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gyfrifoldeb am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu yn flynyddol o leiaf, gan gynnwys y system o reolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei hysbysu gan waith y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal a chadw'r amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, a hefyd drwy sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol, y Panel Heddlu a Throsedd, y Cyd Bwyllgor Archwilio ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill.

4.2 Yn unol â'r rheoliadau, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi adolygu effeithiolrwydd ei wasanaeth archwilio mewnol. Y casgliad oedd bod y gwasanaeth wedi cydymffurfio'n llawn â holl safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus (PSIAS).

4.3 Fel rhan o'n fframwaith llywodraethu ac er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu ein trefniadau ar gyfer effeithiolrwydd, rydym wedi sefydlu Bwrdd Llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro'r trefniadau ar gyfer cydymffurfiad a gwneud argymhellion ar gyfer datblygiad y trefniadau llywodraethu fel sy'n angenrheidiol. Mae adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu hefyd yn cael ei hysbysu gan weithredu a dysgu o'r flwyddyn flaenorol.

4.4 Cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad blynyddol o'n prif systemau ariannol yn 2016-2017 a darparwyd adroddiadau positif yn ystod y flwyddyn. Daeth eu hadroddiad blynyddol i'r casgliad:

Ym marn Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod â sicrwydd 'canolig' yn nigonoldeb ac effeithlonrwydd cyffredinol eu hamgylcheddau rheoli mewnol, gan gynnwys eu trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg. Mae barn Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ddiamod.

4.5 Rhoddodd llythyr archwilio blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015-16 farn ddiamod ar gyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gan gofnodi nad oeddynt wedi gweld unrhyw wendidau arwyddocaol yn y fframwaith cyffredinol. Dywedodd hefyd fod gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl drefniadau digonol yn eu lle i sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac economi yn eu defnydd o adnoddau.

## 5.0 CYNLLUN GWEITHREDU LLYWODRAETHU A CHYNNYDD

5.1 Wrth asesu'r trefniadau llywodraethu sydd mewn lle, bydd y Bwrdd Llywodraethu hefyd yn datblygu ac yn monitro unrhyw gynlluniau gweithredu er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion llywodraethu a ddaw i'r amlwg neu pan fo angen gwella trefniadau presennol. Ceir copi o'r cynllun gweithredu a chynnydd presennol yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

5.2 Roedd y cynllun gweithredu ar gyfer 2016-17 yn cynnwys dau faes gwelliant. Caiff y rhain eu manylu isod gyda'u cynnydd a'u statws presennol.

| Argymhelliad: | Gweithred | Statws Cyfredol - wedi cwblhau Y/N? |
|---|---|---|
| Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu partneriaethau | Mae fframwaith partneriaeth wedi cael ei ddatblygu sy'n cael ei reoli o ran risg ac mae rheoliadau llywodraethu oddi mewn i'r fframwaith. Bydd hwn yn cael ei fonitro ac yn cael ei adolygu gan ein hadran Gwasanaethau Corfforaethol fel rhan o'r broses rheoli risg cyffredinol. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu ac mae'n fodlon ei fod wedi'i gwblhau. | Ydi – wedi'i gyflawni |
| Hyfforddiant Cyd-bwyllgor Archwilio gyda Heddluoedd eraill er mwyn cadw gwybodaeth gyson ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf | Mae hyfforddiant ar y cyd wedi cymryd lle gydag aelodau eraill o'r Pwyllgor Archwilio gan CIPFA. | Ydi – wedi'i gyflawni |

## 6.0 CASGLIAD

6.1 Ni all unrhyw ddatganiad o reolaeth fewnol roi sicrwydd diamod na cheir colledion materol; bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol.

6.2 Fodd bynnag, ar sail yr adolygiad o sicrwydd a nodwyd yn y datganiad hwn, rydym yn fodlon bod gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru drefniadau llywodraethu boddhaol mewn lle, gan gynnwys systemau priodol o ran rheolaeth fewnol a rheoli risg sy'n hwyluso ymarferiad effeithiol ei swyddogaethau.

Llofnodwyd

Mark Polin,
Prif Gwnstabl

Tracey Martin,
Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol – Cynllun Gweithredu

Bydd y meysydd canlynol yn cael sylw yn 2017-2018:-

**Ymgysylltiad â'r Gymuned:**
Mae ymgysylltiad â'r gymuned yn ganolog i blismona, ac mae wedi'i wreiddio yn ein darpariaeth gwasanaeth ac o fewn ein cynlluniau ymgysylltiad â'r gymuned. Mae strategaeth bresennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd angen ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r dulliau a'r arferion presennol a ddefnyddir fel rhan o'n hymateb i ymgysylltiad â'r gymuned.

**Atebolrwydd a Sicrwydd:**
Mae aelodau presennol y Cyd-bwyllgor Archwilio wedi bod mewn lle ers sefydlu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae eu tymor bellach yn dod i ben yn naturiol fel rhan o'r telerau ac amodau a bydd angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddechrau recriwtio rhai i gymryd eu lle er mwyn sicrhau bod y broses sicrwydd yn parhau.

**Cynllunio a Pherfformiad Ariannol**
Yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig dynodwyd bod angen torri £2.2m o'r cyllidebau dros y pedair blynedd nesaf. Bydd y Bwrdd Cynllunio Strategol yn parhau i ddarparu arweiniad wrth ddatblygu cynlluniau i ddod o hyd i'r arbedion hyn.

O fis Hydref 2017, bydd HMIC yn gofyn i bob Heddlu gynhyrchu Datganiad Rheolaeth blynyddol sy'n gosod rhagolygon am alw, gallu'r gweithlu a gwelliannau effeithlonrwydd dros y tymor canolig. Bydd gofyn i'r Prif Gwnstabl fodloni'r gofyn hwn ac mae paratoadau ar waith i alluogi hynny.

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Gogledd Cymru

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig (gan gynnwys Dadansoddiad Gwariant a Chyllid):

- Prif Gwnstabl Gogledd Cymru; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Prif Gwnstabl Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a'r Fantolen.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 27, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Prif Gwnstabl Gogledd Cymru a datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Prif Gwnstabl Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn nodi unrhyw anghysondebau materol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n faterol anghywir yn seiliedig at, neu'n anghyson gyda'r wybodaeth a ddaeth o law wrth i mi gyflawni'r archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Prif Gwnstabl Gogledd Cymru**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

### Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac o swm a natur yr asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw’r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â’r canllawiau.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau’r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio’n wreiddiol. Cyfieithiad o’r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw’r fersiwn hwn. Prif Gwnstabl Gogledd Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.